dti

GWELLA ARFERION TALU YN Y DIWYDIANT ADEILADU

Dadansoddiad ar yr ymgynghori ar gynigion i ddiwygio Rhan II o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 a Rheoliadau Cynllun Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998

IONAWR 2006

Gwella arferion talu yn y diwydiant adeiladu – Dadansoddiad ar yr ymgynghori ar gynigion i ddiwygio Rhan II o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 a Rheoliadau Cynllun Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998

Esboniad ar gyd-destun ehangach yr ymarfer ymgynghori

Cafodd dogfen ymgynghori yr Adran Masnach a Diwydiant a Llywodraeth Cynulliad Cymru ei chyhoeddi ar 22 Mawrth 2005.

Cafodd y cynigion ymgynghori eu gwneud mewn ymateb i adolygiad Syr Michael Latham ar sut mae Rhan II o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (y Ddeddf Adeiladu) a Rheoliadau Cynllun Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 (y Cynllun) yn gweithio. Cafodd yr adolygiad hwnnw, a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2004, ei gyhoeddi ym mis Medi 2004.

Caeodd yr ymarfer ymgynghori ar 21 Mehefin 2005. Cyflwynwyd cyfanswm o 356 o ymatebion. Mae'r ddogfen yma'n crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law. Mae'r ddogfen hefyd yn amlinellu cynigion y Llywodraeth yng ngoleuni'r ymatebion hynny ac yn cyhoeddi'r camau nesaf sydd wedi'u cynllunio gan y Llywodraeth tuag at ddiwygio'r ddeddfwriaeth.

Ymholiadau i:

Paul Smith,
Construction Sector Unit,
Department of Trade and Industry,
Bay 370, 151 Buckingham Palace Road,
London SW1W 9SS
Ffôn: 020 7215 4164
Ffacs: 020 7215 0846
E-bost: pauld.smith@dti.gsi.gov.uk

Dylai cwestiynau am gyfraniad Llywodraeth Cynulliad Cymru at y broses ymgynghori, at ystyried yr ymatebion ac at weithredu yn y dyfodol gael eu cyfeirio at:

Philip Gardiner
Y Gangen Adeiladu ac Ynni Domestig
Y Gyfarwyddiaeth Dai
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
Ffôn: 029 2082 6913
Ffacs: 029 2082 6989

Copïau Ychwanegol

Cewch wneud copïau o'r ddogfen yma heb ofyn caniatâd. Mae rhagor o gopïau printiedig o'r dadansoddiad yma ac o'r ddogfen ymgynghori ar gael oddi wrth:

DTI Publications Order Line
ADMAIL Publications
London SW1W 8YT
Ffôn: 0870 1502 500
Ffacs: 0870 1502 100
Minicom: 0870 1502 100
http://www.dti.gov.uk/publications

Mae copïau o'r crynodeb yma neu o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn Saesneg o'r cyfeiriad yma. Mae fersiwn electronig Saesneg ar gael hefyd yn:
http://www.dti.gov.uk/construction/hgcra/hgcralead.htm

Mae fersiwn electronig Cymraeg ar gael yn yr un cyfeiriad a hefyd yn:
http://www.wales.gov.uk/keypubconsultation/index.htm

Gallwch ofyn am fersiynau eraill o'r ddogfen mewn Braille, ieithoedd eraill neu ar gasét sain oddi wrth:

Sarah Naughton,
Senior Account Manager,
Department of Trade and Industry,
Room V5105,
1 Victoria Street,
London SW1H 0ET
Ffôn: 020 7215 0058
Ffacs: 020 7215 5327
Minicom 020 7215 6740
E-bost: sarah.naughton@dti.gsi.gov.uk

Cyfrinachedd

Mae'r DTI a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi trefnu bod pob ymateb i'r ymarfer ymgynghori ar gael yn gyhoeddus oni bai bod yr ymatebwyr wedi gofyn yn unswydd am i'w hateb neu eu henw aros yn gyfrinachol. Mae'r ymatebion ar gael yn:
http://www.dti.gov.uk/construction/hgcra/consult_resp.htm

Rydym wedi trin unrhyw ddata personol a roddwyd gan yr ymatebwyr yn briodol, a hynny yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

Cynnwys

Rhagair
gan y Gwir Anrh Alun Michael AS ac Edwina Hart AC MBE **7**

Crynodeb Gweithredol **9**

Rhagymadrodd **11**

Pennod I – Fframwaith Taliadau **14**

Gwella gallu'r partïon i gontract adeiladu i gytuno ar yr hyn a ddylai gael ei dalu a pha bryd o gofio'r gwaith a wnaed o dan y contract neu, os na allan nhw gytuno, eu gallu i wneud cyfeiriad gwybodus at ddyfarnwr, neu i ymateb i ddyfarniad.

Pennod II – Cynigion eraill ar gyfer talu **20**

Gwella gallu'r partïon i gontract adeiladu i reoli llif arian a chaniatáu i waith ar y project gael ei gwblhau os bydd problemau'n codi am resymau sydd y tu allan i'w rheolaeth megis taliadau sydd heb eu talu, neu anghydfodau neu ansolfeddau mewn man arall yn y gadwyn gyflenwi.

Pennod III – Cynigion ar gyfer dyfarnu **26**

Lleihau'r anghymhellion sy'n atal anghydfodau rhag cael eu cyfeirio at ddyfarnwyr pan fydd hynny'n addas. Mae'r adolygiad wedi awgrymu y gallai'r rhain gynnwys osgoi'r broses neu'r canlyniad neu eu rhwystro, heriadau cyfreithiol diangen neu gostau annisgwyl neu ormodol.

Atodiad 1 – Dadansoddiad ar yr ymatebwyr **31**

Atodiad 2 – Cynigion nad aethpwyd ymlaen â nhw fel rhan o'r ymarfer ymgynghori ym mis Mawrth 2005 ..... **32**

Atodiad 3 – Cod ymarfer ymgynghori Swyddfa'r Cabinet **35**

Atodiad 4 – Dadansoddiad ystadegol ar yr ymatebion i ffurflen yr ymarfer ymgynghori **36**

Rhagair

Gan y Gwir Anrh Alun Michael AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddiwydiant a'r Rhanbarthau ac Edwina Hart AC MBE Gweinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Ym mis Mawrth 2005 gofynnwyd am eich barn ar *Wella Arferion Talu yn y Diwydiant Adeiladu.*

Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i bawb a ymatebodd ac a gymerodd ran yn y digwyddiadau ymgynghori ac rydyn ni'n croesawu'r gefnogaeth gref a enynnodd yr ymarfer ar gyfer parhau i reoleiddio contractau adeiladu a phroses gwella'r fframwaith presennol. Daeth cyfanswm o 356 o ymatebion i law.

Yn ogystal â dadansoddi'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori, mae'r ddogfen yma'n nodi'r cynigion rydyn ni bellach yn bwriadu bwrw ymlaen â nhw fel gwelliannau i'r ddeddfwriaeth, a hynny at ddibenion ymgynghori eto. Mae hefyd yn dangos y camau nesaf rydyn ni'n bwriadu eu cymryd er mwyn sicrhau bod y pecyn ymgynghori'n gywir a'i fod wedi'i seilio ar ddealltwriaeth glir a thrylwyr o'r materion i gyd.

Y nod yw gwella ar y fframwaith presennol, y mae'n glir ei fod yn cael ei gydnabod yn gyffredinol fel cyfraniad gwerthfawr at degwch yn y ffordd y mae contractau'r diwydiant adeiladu'n cael eu cytuno a'u rhoi ar waith. Mae'n ymddangos yn glir bod y ddeddfwriaeth yn gweithio yn unol â'r bwriad i raddau helaeth, diolch yn rhannol i weithredu effeithiol gan y dyfarnwyr a'r llysoedd ac i barodrwydd y diwydiant adeiladu a'i gleientau i ddatblygu'n ddiwylliannol yng ngoleuni newid yn y fframwaith cyfreithiol.

Er hynny, yng ngoleuni'r ymarfer ymgynghori mae'n glir bod yna rwystrau gweithdrefnol a masnachol ar hyn o bryd sy'n effeithio ar y farchnad adeiladu wrth i'r contractau yma gael eu rhoi ar waith o dan y ddeddfwriaeth. Cododd yr ymarfer ymgynghori faterion anodd a chymhleth, y bu'n rhaid cael dadansoddiad gofalus ac atebion arloesol ar eu cyfer. Mae rhai o elfennau'r pecyn yn cynnig mwy i rai sectorau nag eraill. Weithiau, does dim ateb hawdd ond mae meithrin consensws yn y diwydiant ac ymhlith ei fudd-ddeiliad yn parhau'n nod realistig er mwyn gwella sicrwydd yn y fframwaith talu a dyfarnu. At ei gilydd, rydyn ni'n parhau i anelu at wella'r sefyllfa dalu bresennol yn y diwydiant adeiladu i bawb.

Crynodeb Gweithredol

Y Fframwaith Taliadau

Mae'n dadansoddiad ni ar yr ymarfer ymgynghori wedi dod i'r casgliad canlynol:

1. Mae angen diffinio ymhellach ar y gofyniad yn Adran 110(1) o'r Ddeddf Adeiladu bod rhaid cael mecanwaith talu digonol
2. Mae achos cryf o blaid dileu'r gofyniad yn y Ddeddf Adeiladu fod rhaid cyflwyno Hysbysiad Adran 110(2)
3. Mae achos dros ddarparu ar gyfer cais am daliad ar ryw ffurf yn y ddeddfwriaeth
4. Does dim angen ailddiffinio cynnwys hysbysiadau dal yn ôl o dan Adran 111
5. Mae achos dros gyfyngu ar ddefnyddio cymalau talu ar ôl ardystio

Wedi edrych ar ein hopsiynau, rydyn ni'n ystyried:

- cyflwyno gofyniad bod ardystio'r swm sy'n ddyledus, gan un o bartïon y contract neu gan drydydd parti, yn dod yn nodwedd hanfodol ar y mecanwaith talu digonol;
- dileu'r gofyniad yn Adran 110(2) bod rhaid cael hysbysiad talwr;
- cyflwyno hawl i wneud cais am daliad os na fydd tystysgrif wedi'i rhoi erbyn y dyddiad y mae'r taliad yn ddyledus.

Byddai hyn yn cael ei ddrafftio fel na ellid barnu bod tystysgrifau a fyddai wedi'u rhoi gan drydydd parti o dan gontract arall yn datgan y swm sy'n ddyledus o dan y contract o dan sylw. Wedyn byddai mecanweithiau a fyddai'n cynnwys cymalau "talu yr hyn a ardystiwyd" yn annigonol. Rydyn ni hefyd yn ystyried a oes modd dirymu pob cymal "talu ar ôl ardystio", er bod hynny'n codi nifer o anawsterau.

Cynigion eraill ar gyfer talu

6. Mae cefnogaeth glir o blaid cyflwyno hawl i gael eich digolledu am gostau atal gwaith ac ailddechrau o dan adran 112 o'r Ddeddf Adeiladu a chaniatáu estyniad ar yr amser ar gyfer ailddechrau
7. Mae achos dros ddirymu darpariaethau contractiol ar wrthgyfrifiadau ar draws contractau, er bod y cynnig yn cynnwys nifer o anawsterau
8. Mae cefnogaeth, ond ychydig yn unig o ddadleuon newydd, o blaid dirymu cymalau "talu pan delir" mewn achosion ynglŷn ag ansolfedd i fyny'r afon
9. Mae cefnogaeth gyfyngedig a rhywfaint o ddadlau yn erbyn caniatáu taliadau fesul cam o dan y Cynllun am ddeunyddiau cyn iddyn nhw gyrraedd y safle

Gan hynny, rydyn ni'n cynnig ychwanegu at yr hawl bresennol i atal gwaith o dan y Ddeddf Adeiladu. Byddai'r cynnig yn caniatáu i'r parti sy'n atal y gwaith wneud cais am golledion a threuliau wrth arfer yr hawl bresennol, gan gynnwys cais am gostau ychwanegol ailddechrau ar y gwaith os gwneir taliad. Byddai'n darparu hawl hefyd i gael oediad priodol cyn ailddechrau. Dydyn ni ddim yn bwriadu diwygio'r ddeddfwriaeth mewn unrhyw faes arall o dan y pennawd yma.

Cynigion ar gyfer dyfarnu

10. Mae cefnogaeth o blaid atal defnyddio "cyfrifon budd-ddeiliaid ymddiriedol" i atal dyfarniad dyfarnwr hyd nes y ceir penderfyniad terfynol ar yr anghydfod drwy ymgyfreitha
11. Does fawr o gyfiawnhad dros roi pŵer i'r dyfarnwr i ddyfarnu ar agweddau penodol ar awdurdodaeth y dyfarnwr ei hun. Er hynny mae achos o blaid rhoi hawl i'r dyfarnwr i gael taliad mewn achosion lle mae'n tynnu'n ôl oherwydd ei ddiffyg awdurdodaeth
12. Mae achos dros roi hawl i'r dyfarnwr i agor penderfyniadau "terfynol a phendant" os yw'r rhain o bwys ar gyfer taliadau interim yn unig
13. Mae rhywfaint o gefnogaeth i estyn imiwnedd y dyfarnwr rhag hawliadau gan drydydd partïon ond cododd ymatebwyr eraill ddadleuon llawn perswâd i'r gwrthwyneb
14. Mae cefnogaeth, ond dim achos clir, dros gymhwyso'r darpariaethau ar annibyniaeth y dyfarnwr ar y Cynllun at bob dyfarniad

Gan hynny, rydyn ni'n ystyried cynigion sy'n gwella'r broses dyfarnu, drwy wneud y canlynol:

- rhoi hawl i gael eu talu i ddyfarnwyr pan fyddan nhw'n ymddiswyddo mewn ymateb i her i'w hawdurdodaeth;
- gwahardd defnyddio cyfrifon budd-ddeiliaid ymddiriedol ar gyfer dyfarniadau sy'n cael eu gwneud gan ddyfarnwyr;
- peri ei bod yn amhosibl gorfodi cymalau "terfynol a phendant" os ydyn nhw'n gymwys i benderfyniadau o dan y contract sydd o bwys ar gyfer taliadau interim yn unig.

Rydyn ni hefyd yn bwrw ymlaen ag ymrwymiadau presennol y Llywodraeth i beri bod cytundebau mewn contractau ar gostau dyfarnu yn amhosibl i'w gorfodi ac i ddarparu fframwaith statudol ar gyfer dyrannu'r costau yma.

Rhagymadrodd

Ystyriodd *Gwella Arferion Talu yn y Diwydiant Adeiladu* gynigion i ddiwygio'r Ddeddf Adeiladu a'r Cynllun mewn tri maes allweddol:

- Gwella gallu'r partïon i gontract adeiladu i ddod i gytundeb ar yr hyn a ddylai gael ei dalu a pha bryd o gofio'r gwaith a wnaed o dan y contract neu, os na allan nhw gytuno, i wneud cyfeiriad gwybodus at ddyfarnwr, neu i ymateb i ddyfarniad.
- Gwella gallu'r partïon i gontract adeiladu i reoli llif arian a galluogi gwaith ar y project i gael ei gwblhau os bydd problemau'n codi sydd y tu allan i'w rheolaeth megis taliadau sydd heb eu talu, anghydfodau neu ansolfeddau mewn man arall yn y gadwyn gyflenwi.
- Lleihau'r anghymhellion i gyfeirio anghydfodau at ddyfarnu os yw hynny'n addas. Gallai'r rhain gynnwys osgoi neu rwystro'r broses neu'r canlyniad, her gyfreithiol ddiangen neu gostau gormodol.

Gofynnwyd i'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw:

- a oedd y pynciau trafod cywir wedi'u nodi;
- a oedd yr atebion cywir wedi'u cynnig neu a oedd yna ddewisiadau eraill;
- sut y gallen ni gloriannu costau a manteision posibl y gwahanol gynigion.

Enynnodd yr ymarfer ymgynghori ymateb sylweddol, gyda 356 o ymatebion gan unigolion, cwmnïau a chyrff cynrychioli.

Wrth ystyried yr ymatebion, rydyn ni wedi cadw'r canlynol mewn cof:

- yr angen i wella arferion talu o dan y ddeddfwriaeth i bawb;
- yr angen i barchu egwyddor rhyddid contract, er y gall fod rhaid ymyrryd ar adegau;
- posibilrwydd cyhoeddi canllawiau yn lle rheoliadau i roi sylw i rai materion; a
- datblygiadau parhaus yn y gyfraith achosion ynglŷn â dyfarnu a darpariaethau talu y Ddeddf Adeiladu.

Y Ffordd Ymlaen

Wedi dadansoddi'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori ac wedi edrych ar ein hopsiynau, rydyn ni bellach yn ystyried pa newidiadau y mae eu hangen i'r Ddeddf Adeiladu a'r Cynllun er mwyn:

- Gwella'r fframwaith taliadau mewn contractau;
- Ychwanegu at yr hawl bresennol i atal gwaith; a
- Chynyddu'r cyfle i ddefnyddio'r broses ddyfarnu;

Rydyn ni hefyd yn ystyried a oes modd dirymu pob cymal "talu ar ôl ardystio", er bod hynny'n creu nifer o anawsterau.

Gweithredu

Rydyn ni'n bwrw ymlaen ar y sail mai Gorchymyn Diwygio Rheoliadau (RRO) fydd y ffordd debycaf o wneud newidiadau yn y ddeddfwriaeth ar gontractau adeiladu yng Nghymru a Lloegr.

Bydd hyn yn golygu bod gofyn y canlynol:

- y dylai'r pecyn ddileu neu leihau baich rheoliadol ar y rhai y mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn effeithio arnyn nhw;
- y dylai'r mesurau yn y pecyn sy'n cymhwyso beichiau rheoliadol wneud hynny mewn ffordd sy'n gymesur â'r budd a geir yn sgil y gwelliant a fydd yn cael ei wneud;
- y dylai'r pecyn yn ei gyfanrwydd daro cydbwysedd teg rhwng y buddion a geir yn gyffredinol a'r beichiau newydd a fydd yn effeithio ar grwpiau penodol;
- bod RRO yn ddymunol o gofio i ba raddau y byddai'n lleihau baich cyffredinol y ddeddfwriaeth yn nhermau lleihau'r beichiau rheoliadol a gwella'r ddeddfwriaeth yn fwy cyffredinol;
- na ddylai'r pecyn ddileu unrhyw amddiffyniad angenrheidiol; ac
- na ddylai'r pecyn atal neb rhag parhau i arfer unrhyw hawl neu ryddid y byddai'n rhesymol iddyn nhw ddisgwyl parhau i'w harfer.

Rhaid i'r profion yma gael eu pasio os bwriedir i'r pecyn fod yn dderbyniol i'w gyflwyno drwy gyfrwng Gorchymyn Diwygio Rheoliadau, ond maen nhw hefyd yn llwybr defnyddiol ar gyfer darganfod effaith reoliadol y mesurau a gynigir, ni waeth sut y cân nhw eu cyflwyno yn y pen draw.

Rhoddodd yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori ddata defnyddiol ar effeithiau'r newidiadau arfaethedig. Mae hyn wedi'i gynnwys yn Atodiad 4 ynghyd â'r data arall a roddwyd gan ymatebwyr a gwblhaodd ffurflen ymateb yr ymarfer ymgynghori.

Y camau nesaf – amserlen at y dyfodol

Fel rhan o'r weithdrefn statudol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Diwygio Rheoliadau 2001, rydyn ni'n gobeithio cyhoeddi papur ymgynghori ar ddiwygiadau i'r ddeddfwriaeth yng Ngwanwyn 2006. Byddai'r ymarfer ymgynghori yma'n cael ei gwblhau wedyn a byddai'r casgliadau'n cael eu tynnu yn Haf 2006 mewn pryd ar gyfer sesiwn seneddol 2006-07.

Mae'r DTI yn bwrw ymlaen â phroses o drafod anffurfiol gyda'r diwydiant adeiladu ar y cynigion uchod. I wneud hyn, rydyn ni'n cynnwys seinfwrdd o unigolion y bydd eu gwybodaeth, eu profiad a'u cysylltiadau â rhwydweithiau'r diwydiant yn amhrisiadwy wrth inni ystyried diwygiadau penodol i'r ddeddfwriaeth. Dyma aelodau'r seinfwrdd:

- Richard Bayfield
- Chris Dancaster
- Richard Haryott
- Syr Michael Latham
- Ei Anrhydedd Humphrey Lloyd CF
- Peter Rogers

Does dim bwriad i aelodau'r seinfwrdd gynrychioli sectorau penodol yn y diwydiant adeiladu. Bydd y DTI yn dod o hyd i gyfleoedd ar gyfer deialog rhwng y diwydiant a'i fudd-ddeiliaid a'r seinfwrdd a'r Adran yn y cyfnod sy'n arwain at yr ymgynghori nesaf.

Materion Eraill – Canllawiau

Yng ngoleuni'r ymatebion a ddaeth i law, dydyn ni ddim yn bwriadu diwygio'r Ddeddf Adeiladu i wneud y canlynol:

- dirymu darpariaethau contractiol ar wrthgyfrifiadau ar draws contractau
- dirymu cymalau "talu pan delir" mewn achosion ansolfedd "i fyny'r afon";
- caniatáu i daliadau fesul cam o dan y Cynllun gael eu gwneud am ddeunyddiau cyn iddyn nhw gyrraedd y safle;
- rhoi hawl i'r dyfarnwr i wneud penderfyniadau cyfrwymol ar ei awdurdodaeth;
- estyn imiwnedd dyfarnwr i hawliadau gan drydydd partïon;
- cymhwyso darpariaethau yn y Cynllun ar annibyniaeth dyfarnwyr at bob dyfarniad.

Yn ein barn ni, byddai'n well ymdrin â'r materion yma mewn canllawiau. Wrth ddadansoddi, rydyn ni wedi nodi nifer o feysydd eraill lle byddai'n werthfawr cael canllawiau. Er bod canllawiau i'r dyfarnwyr yn cael eu cadw'n dda gan Dasglu Dyfarnu Cyrff Ymbarél y Diwydiant Adeiladu, gallai canllawiau ar daliadau fod yn fwy priodol i gyrff blaenllaw yn y diwydiant fel Constructing Excellence.

Pennod I – Fframwaith Taliadau

Gwella gallu'r partïon i gontract adeiladu i gytuno ar yr hyn a ddylai gael ei dalu a pha bryd o gofio'r gwaith a wnaed o dan y contract neu, os na allan nhw gytuno, eu gallu i wneud cyfeiriad gwybodus at ddyfarnwr, neu i ymateb i ddyfarniad.

Cynigion yr ymarfer ymgynghori

Ymgynghorwyd ar bump o gynigion o dan y pennawd yma:

1. Diffinio cynnwys mecanwaith talu digonol yn Adran 110(1) o'r Ddeddf Adeiladu
2. Dileu'r gofyniad bod rhai cyflwyno hysbysiad Adran 110(2) yn y Ddeddf Adeiladu
3. Darparu cais am daliad yn y ddeddfwriaeth
4. Ailddiffinio cynnwys hysbysiadau dal yn ôl o dan Adran 111
5. Cyfyngu'r defnyddio ar gymalau talu ar ôl ardystio

Yr ymatebion

1. Mae angen diffinio ymhellach ar y gofyniad yn Adran 110(1) o'r Ddeddf Adeiladu bod rhaid cael mecanwaith talu digonol

1.1 Ategodd yr ymatebion ein pryder ynghylch methiant llawer o fecanweithiau mewn contractau i sicrhau cyfathrebu effeithiol ynglŷn â pha symiau sy'n ddyledus a phryd. Er hynny, cafodd pwynt mwy sylfaenol ei wneud gan nifer fawr o ymatebwyr. Mewn llawer o achosion, mae'n ymddangos bod contractau adeiladu'n methu â darparu ar gyfer mecanwaith sy'n nodi'n ddigon sicr pa daliadau sy'n ddyledus o dan y contract a phryd.

1.2 Gosododd ein cynnig ni bwyslais penodol ar gyfleu'r swm dyledus, ond mae'r angen am y mecanwaith er mwyn sicrhau y gall y partïon farnu bod swm penodol yn ddyledus yn y lle cyntaf yn bwysicach inni. Heblaw gwireddu'r amcan yma, fe fyddwn am gadw mewn cof bryderon a godwyd gan rai ymatebwyr am unrhyw symudiad gormodol yn y cynnig tuag at ddull gorfodol yn Adran 110(1).

2. Mae achos cryf o blaid dileu'r gofyniad yn y Ddeddf Adeiladu fod rhaid cyflwyno Hysbysiad Adran 110(2)

2.1 Dywedodd yr ymatebwyr fod y gofyniad yn Adran 110(2) bod rhaid cael hysbysiad yn aneffeithiol, yn aml yn cael ei anwybyddu wrth i'r contract gael ei roi ar waith ac yn ffordd rhy feichus o gyfleu'r taliad. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn credu y dylai'r hysbysiad gael ei gadw er gwaethaf ei gyfyngiadau a hynny fel ffordd i sicrhau bod y contract yn sicrhau taliad a allai gael ei gyfleu. Rydyn ni'n cydymdeimlo â'r pryderon am rôl yr hysbysiad fel dull cyfathrebu. Er hynny rydyn ni'n anghytuno â'r rhai sy'n credu mai pennu pa symiau sy'n ddyledus yw rôl yr hysbysiad. Diben y mecanwaith digonol yn Adran 110(1) yw hynny. Y cyfan y mae'r hysbysiad yn Adran 110(2) yn ei wneud yw ymateb i'r hyn sy'n ddyledus o dan y contract.

2.2 Roedd ymatebwyr eraill yn pryderu y byddai angen hysbysiad talu yng nghyd-destun ein cynigion eraill. Dydyn ni ddim yn credu y bydd hyn yn wir os yw'r mecanwaith yn y contract yn ateb ei ddiben, fel bod y swm dyledus yn glir i'r ddau barti ar y dyddiad y mae'n ddyledus.

2.3 Yn ogystal â chynnig dileu'r gofyniad, fe gynigiwyd dileu'r cysyniad o "ddyddiad dyledus" o'r ddeddfwriaeth a'i disodli â "dyddiad asesu". Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cydymdeimlo â'r farn bod yr ymadrodd "dyddiad dyledus" yn gamarweiniol pe bai'n cael ei ddehongli i olygu bod y swm sy'n ddyledus o dan y contract yn daladwy pan fo'n dod yn ddyledus. A dweud y gwir, gall y swm dyledus gael ei gadw'n ôl ac nid yw'r swm sydd ar ôl yn daladwy tan y dyddiad olaf ar gyfer talu. Roedd ymatebwyr eraill yn cydnabod hyn ac yn credu bod yr arfer yma o dan y Ddeddf Adeiladu yn ddigon cyfarwydd nes bod dim angen ei newid.

2.4 Yn olaf, cynigiwyd y dylai rhywbeth cyfatebol i'r hysbysiad Adran 110(2) yn y Cynllun gael ei gadw fel ffordd i sicrhau bod y taliadau sy'n ddyledus o dan y Cynllun yn cael eu cyfleu. Anghytuno wnaeth yr ymatebwyr yn gyffredinol. Gyda'r gofyniad ynglŷn â hysbysiadau neu hebddo, mae wedi dod yn glir bod y Cynllun yn dioddef yr un broblem â llawer o gontractau, yn gymaint â'i fod yn methu gwneud y swm yn glir i'r ddau barti erbyn y dyddiad dyledus.

3. Mae achos dros ddarparu ar gyfer cais am daliad ar ryw ffurf yn y ddeddfwriaeth

3.1 I raddau helaeth, gadael y mater yma yn agored wnaeth y ddogfen ymgynghori, er ei bod wedi datgan o blaid cais am daliad yn y ddeddfwriaeth. Yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr o blaid yr egwyddor y dylai fod gan y talai hawl i wneud cais am daliad, er eu bod yn teimlo bod hynny'n foddhaol lle'r oedd y contract eisoes yn darparu proses gwneud cais. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod proses o ardystio gan drydydd parti yr un mor foddhaol, yn enwedig fel ffordd i benderfynu ar y swm sy'n ddyledus o dan y contract ar ôl i gais gael ei wneud. Roedd yr ymatebion yn awgrymu bod proses statudol ar gyfer ceisiadau a fyddai'n rhedeg ochr yn ochr â phroses y contract yn ddi-fudd ac yn ddiangen.

3.2 Argymhellodd rhai o'r ymatebion un broses statudol ar gyfer gwneud cais fel rhan ragnodedig o fecanweithiau'r contract. Byddai hynny'n golygu ei bod yn ofynnol mai'r swm a bennid yn y cais fyddai'n penderfynu faint fyddai'n ddyledus pe na bai yna hysbysiad i ddweud bod taliad yn cael ei dal yn ôl o dan Adran 111. Aeth rhai o'r ymatebion mor bell ag awgrymu y dylai cais o'r fath hefyd benderfynu'r dyddiad dyledus fel y gallai cais gael ei wneud ar unrhyw adeg er mwyn peri bod taliad yn ddyledus bryd hynny am y gwaith a oedd wedi'i wneud. Fyddai'r cynnig yn y papur ymgynghori ddim wedi peri bod y swm y gwneid cais amdano yn ddyledus nac wedi effeithio ar y dyddiad dyledus. Roedd yn gadael y swm dyledus, y dyddiad dyledus a'r dyddiad terfynol i'w penderfynu gan y contract. Ychydig o werth a welai rhai o'r ymatebwyr mewn cais o'r math yma, tra oedd eraill yn ei gefnogi fel rhan hanfodol o'r mecanwaith talu. Dywedodd eraill fod ceisiadau o'r fath yn gyffredin beth bynnag, hyd yn oed pe na bai'r contract yn darparu ar eu cyfer.

4. Does dim angen ailddiffinio cynnwys hysbysiadau dal yn ôl o dan Adran 111

4.1 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno nad oedd angen cryfhau'r gofyniad bod rhaid i hysbysiadau dal yn ôl roi seiliau manylach dros ddal taliad yn ôl.

4.2 Roedd yr ymatebwyr yn fwy rhanedig dros gwestiwn a ddylai hysbysiadau dal yn ôl ddatgan y swm sydd ar ôl i'w dalu ar ôl i'r hysbysiad gael ei roi. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod y cynnig yn ffordd ddefnyddiol i sicrhau eglurder o ran faint oedd ar ôl i'w dalu. Nododd eraill fod y diffyg eglurder o dan lawer o gontractau yn broblem fwy sylfaenol. Mae hyn yn arbennig o wir o gofio mai yn gymharol anaml y caiff hysbysiadau dal yn ôl eu cyflwyno. Er bod hyn yn deillio'n rhannol o'r ffaith bod talwyr yn gallu osgoi rhoi hysbysiadau ar gyfer gostyngiadau a hyd yn oed gwrthgyfrifiadau teg, mae hefyd yn awgrymu bod cyfran fawr o'r taliadau'n cael eu rheoli heb fod angen gwrthgyfrifiad neu ostyngiad.

4.3 Rydyn ni wedi edrych eto ar gwestiwn a ystyriwyd yn fyr yn y papur ymgynghori ynghylch pa bryd y mae'n rhaid i hysbysiadau dal yn ôl gael eu cyflwyno. Mae'n ymddangos bod y cwestiwn yn darlunio'r cysylltiad uniongyrchol rhwng adrannau 110(1) a 111 a'r methiant cyffredinol mewn contractau ar hyn o bryd i beri bod swm yn ddyledus. Os oes swm yn ddyledus o dan y contract, fel sy'n ofynnol er mwyn i Adran 111 fod yn gymwys, mae'n glir nad yw'r ddeddfwriaeth yn gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o "ddal yn ôl" (gostyngiadau ac amryw o fathau o wrthgyfrif). Dim ond os nad oes swm penodol wedi dod yn ddyledus o dan y contract y dadleuir bod modd gostwng taliad heb hysbysiad, am nad oedd byth yn ddyledus[1].

5. Mae achos dros gyfyngu ar ddefnyddio cymalau talu ar ôl ardystio

5.1 Roedd yr ymatebwyr yn ymrannu'n gyffredinol rhwng y rhai a oedd yn dymuno cadw hawl ddilyffethair i ddefnyddio cymalau talu ar ôl ardystio a'r rhai a oedd am beri bod y cymalau'n amhosibl i'w gorfodi. Roedd llawer o'r categori olaf am weld cymalau talu amodol yn cael eu dirymu, er nad oedd asesiad clir ar effaith ehangach y mesur yma. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr mai cyfiawnhad cyfyngedig yn unig oedd i'w gael dros ganiatáu ar gyfer trefniadau contractau rheoli a threfniadau enwebu isgontractwyr yn y cynnig rheoliadol

5.2 Ychydig o gymeradwyaeth a roddwyd i'r cynnig yn y papur ymgynghori y dylid cyfyngu ar ddefnyddio cymalau talu ar ôl ardystio drwy gyfrwng rheoliadau. Cododd y rhai a gymeradwyodd hyn gwestiynau penodol am sut y byddai'r rheoliad yn gweithio yn ymarferol, gan awgrymu problemau technegol posibl gyda'r fframwaith rheoliadol arfaethedig. Mynegodd eraill y farn y dylai'r fframwaith cyfredol, sy'n gofyn am fecanwaith talu digonol, fod yn ddigonol i ganiatáu i ddyfarnwyr neu'r llysoedd ymdrin â defnyddio cymalau talu ar ôl ardystio yn annheg.

5.3 Ychydig yn unig o'r ymatebwyr a roddodd sylw i'r awgrym y dylai cymalau talu ar ôl ardystio a chymalau talu yr hyn a ardystiwyd gael eu trin yn wahanol. Yn y papur ymgynghori, roedden ni wedi awgrymu y dylai fod yn ofynnol i waith is-gontractiwr unigol gael ei ardystio'n unigol o dan gymal talu yr hyn a arystiwyd ond y gallai barhau i gael ei ardystio fel rhan o becyn ehangach o waith o dan gymal talu ar ôl ardystio. Roedd yn glir bod llawer o ymatebwyr a oedd am i gymalau talu ar ôl ardystio gael eu gwneud yn amhosibl i'w gorfodi yn gwrthwynebu'r arfer o ohirio taliadau oherwydd gwaith diffygiol gan gontractwyr eraill.

1 Gweler Rupert Morgan Building Services (LLC) Ltd -v- David Jervis and Harriet Jervis [2003] EWCA Civ 1563, 12 Tachwedd 2003.

Cynigion ar ôl yr ymarfer ymgynghori

Adran 110(1)

Rydyn ni'n credu ei bod yn holl-bwysig bod contractau'n rhoi sicrwydd ynghylch pa symiau sy'n ddyledus o dan y contract a pha bryd at ddibenion Adran 110(1). Dyna oedd bwriad y Ddeddf wreiddiol. Gan hynny, rydyn ni'n cynnig diwygio Adran 110(1) i ddarparu bod mecanwaith mewn contract yn ddigonol dim ond os yw'n mynnu bod rhad cael datganiad o'r hyn sy'n ddyledus mewn tystysgrif sy'n cael ei rhoi:

- gan y talwr; neu
- gan y talai (drwy gais neu hawliad am daliad); neu
- gan drydydd parti sydd wedi'i enwi yn y contract.

Pan na fydd tystysgrif yn cael ei rhoi (sy'n arwain at beidio â chydymffurfio â'r contract), byddai gan y talai hawl i wneud cais a fyddai'n datgan y swm dyledus. Dyddiad y cais fyddai'n gweithredu fel y dyddiad dyledus wedyn, yr un fath ag o dan y Cynllun ar gyfer Contractau Adeiladu.

Bwriad y cynnig uchod yw peri ei bod yn amhosibl i gymalau talu yr hyn a arystiwyd gael eu gorfodi gan na fyddai'r mecanwaith talu'n ddigonol at ddibenion y gofyniad diwygiedig yn Adran 110(1). Fyddai tystysgrifau a fyddai'n cael eu rhoi gan drydydd parti o dan gontract arall ddim yn cael eu cymryd fel pe baen nhw'n datgan y swm dyledus o dan y contract o dan sylw. O ganlyniad i hyn, gallai'r dystysgrif gael ei hanwybyddu a byddai telerau'r Cynllun yn gymwys.

Bwriad y cynnig yma yw creu dealltwriaeth glir o ystyr y "swm dyledus" at ddibenion gorfodi'r gofyniad ynglŷn â hysbysiadau dal yn ôl o dan adran 111 ac arfer yr hawl i atal gwaith o dan adran 112.

Adran 110(2)

Rydyn ni'n bwriadu dileu'r gofyniad bod rhaid cael hysbysiad Adran 110(2). Os nad yw'r talwr yn credu y dylai dalu'r hyn sy'n ddyledus o dan y contract, gall ddefnyddio'r mecanwaith yn adran 111. Does dim angen dau fecanwaith.

Y Cynllun

O ran cysondeb, rydyn ni hefyd yn bwriadu diwygio'r Cynllun i sicrhau, os nad yw'r contract yn darparu ar gyfer ardystio'r swm sy'n ddyledus, fod hwnnw'n cael ei bennu drwy gyfrwng cais am daliad gan y talai. Fel ar hyn o bryd o dan y Cynllun, os caiff y cais ei wneud ar ôl y dyddiad dyledus o dan y contract, byddai dyddiad y cais yn gweithredu fel y dyddiad dyledus.

Bydd yn bosibl dileu Rhan I paragraff 9 o'r Cynllun pan gaiff y diwygiad yma ei wneud.

Talu ar ôl ardystio

Fel yr esboniwyd uchod, byddai'r cynnig i ddiwygio Adran 110(1) hefyd yn atal trefniadau talu yr hyn a arystiwyd rhag cael eu defnyddio.

Mae'r arfer o ddefnyddio cymalau talu ar ôl ardystio yn parhau i beri pryder i ni. Gan hynny, rydyn ni'n ystyried gwahardd pob cymal sy'n peri bod derbyn taliad o dan y contract yn amodol ar roi tystysgrif neu ar gynnwys tystysgrif gan drydydd person o dan gontract ar wahân. Er hynny, mae hyd a lled y defnyddio presennol ar gymalau talu ar ôl ardystio yn awgrymu y gall fod angen deddfwriaeth sylfaenol ar wahân er mwyn ymyrryd â'r rheoliadau mewn ffordd arwyddocaol fel hyn. Os daw'n glir bod hynny'n wir, yn y cyfamser fe allai fod yn werthfawr cael canllawiau ar ba bryd y byddai'r llysoedd yn debyg o farnu bod defnyddio cymalau talu ar ôl ardystio yn creu mecanwaith talu annigonol o dan y Ddeddf Adeiladu.

Pennod II – Cynigion eraill ar gyfer talu

Gwella gallu'r partïon i gontract adeiladu i reoli llif arian a chaniatáu i waith ar y project gael ei gwblhau os bydd problemau'n codi am resymau sydd y tu allan i'w rheolaeth megis taliadau sydd heb eu talu, neu anghydfodau neu ansolfeddau mewn man arall yn y gadwyn gyflenwi.

Cynigion yr ymarfer ymgynghori

Ymgynghorwyd ar bedwar o gynigion o dan y pennawd yma:

6. Cyflwyno hawl i gael ad-daliad am gostau atal gwaith a'i ailddechrau a darparu amser ychwanegol i ailddechrau o dan Adran 112 o'r Ddeddf Adeiladu.
7. Dirymu darpariaethau contractiol ar wrthgyfrifiadau ar draws contractau
8. Dirymu cymalau "talu pan delir" mewn achosion ansolfedd "i fyny'r afon"
9. Caniatáu i daliadau fesul cam o dan y Cynllun Contractau Adeiladu gael eu gwneud am ddeunyddiau cyn iddyn nhw gyrraedd y safle

Yr ymatebion

6. Mae yna gefnogaeth glir i gyflwyno hawl i gael ad-daliad am gostau atal gwaith ac ailddechrau gwaith o dan adran 112 o'r Ddeddf Adeiladu ac i ganiatáu amser ychwanegol i ailddechrau gwaith.

6.1 At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn unedig yn y farn yma. Er hynny, nododd llawer nad anallu presennol y partïon sy'n atal gwaith i hawlio costau'r atal a'r ailddechrau oedd yr unig anghymhelliant sy'n rhwystro partïon rhag atal gwaith o dan y contract. Dyma rai eraill:

- y canlyniadau ar gyfer busnes yn y dyfodol rhwng y parti sy'n atal y gwaith a'i gyflogwr; a'r
- perygl o atal gwaith yn anghywir o dan y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd, gan ei bod yn bosibl na fydd swm wedi'i sefydlu yn ddyledus o dan y contract i adael i'r talai wybod yn sicr a yw'r swm wedi'i dalu neu beidio.

Fyddai'r cynnig yn y papur ymgynghori ddim yn mynd i'r afael â'r naill na'r llall o'r materion yma. Er nad oes modd osgoi canlyniad posibl cyntaf atal gwaith, fe ddylai'r ail fod yn llai o broblem o dan y cynnig i ddiwygio Adran 110 o'r ddeddfwriaeth (sy'n cael ei ddisgrifio ym Mhennod 1 o'r dadansoddiad yma).

6.2 Ymateb cymysg a roddwyd i'r cynnig yn y papur ymgynghori y dylai'r contract bennu'r costau a fyddai'n daladwy am atal gwaith a'i ailddechrau. Cafodd y cynnig y dylai'r Cynllun ddarparu cost sylfaenol wrth gefn wedi'i seilio ar y taliad y methwyd â'i dalu ei wrthod yn gyffredinol. Er hynny fe gynigiodd ambell barti gynigion eraill ar sut y gallai cytundeb gael ei gyrraedd rhwng y partïon. Roedd rhai o'r partïon oedd yn erbyn dull wedi'i seilio ar y contract o'r farn na fyddai cytundeb felly ond yn sicrhau mai'r costau isaf posibl a gâi eu pennu ac na fydden nhw'n cyfateb i wir gostau'r parti oedd wedi atal y gwaith. Gan hynny, dywedodd rhai ymatebwyr y dylai'r costau gael eu pennu, yn syml ddigon, o dan y gyfraith gyffredin ar golledion a threuliau a lleddfu ac nad oedd rhaid i'r contract wneud dim.

6.3 Roedd yr ymatebwyr yn teimlo at ei gilydd y dylai oediad priodol cyn ail-ddechrau gwaith gael ei gytuno fesul achos yn hytrach na chael ei bennu yn y ddeddfwriaeth.

7. Mae achos dros ddirymu darpariaethau contractiol ar wrthgyfrifiadau ar draws contractau, er bod y cynnig yn cynnwys nifer o anawsterau

7.1 Yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr o blaid egwyddor gyffredinol cyfyngu ar wrthgyfrifiadau ar draws contractau. Roedd y mwyafrif yn cytuno â'r cynnig mai'r ffordd fwyaf effeithiol i wneud hyn oedd drwy beri bod cymalau gwrthgyfrif ar draws contractau yn amhosibl i'w gorfodi. Fyddai'r cynnig yma ddim yn effeithio ar wrthgyfrifiadau teg (a gafodd ei alw, yn anghywir felly, yn "gyfraith gyffredin o wrthgyfrifiad teg" yn y papur ymgynghori) sy'n caniatáu gwrthgyfrif rhwng dau gontract os oes cysylltiad agos rhyngddyn nhw. Cododd y papur ymgynghori fater gwrthgyfrif rhwng contractau o dan gytundebau fframwaith, gan ddatgan ein barn ni y byddai gwrthgyfrifiad teg yn bosibl o dan gytundebau o'r fath. Er bod yr ymatebwyr yn gyffredinol yn cytuno â hyn, roedd rhai yn credu y byddai'r ymagwedd yma'n hwb i ymgyfreitha ynghylch pa gontractau o dan gytundebau fframwaith a fyddai'n gymwys ar gyfer gwrthgyfrifiad teg, gan gredu y byddai diffiniad statudol o gontractau sydd â chysylltiad agos rhyngddyn nhw yn fwy priodol. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn erbyn y cynnig o ran egwyddor.

7.2 Nododd rhai o'r ymatebwyr broblem gyda'r cynnig ar gyfer contractiwr mewn achos ansolfedd sy'n gweithio i'w gyflogwr ar fwy nag un contract sy'n cynnwys cymalau gwrthgyfrif ar draws contractau. Yn yr achos yma, mae cymalau gwrthgyfrif ar draws contractau fel pe baen nhw'n gosod y cyflogwr mewn sefyllfa sy'n debyg i sefyllfa credydwr dewisol i'r graddau ei fod yn gallu gwrthgyfrif hawliadau yn erbyn taliadau i'r contractiwr o dan y gwahanol gontractau. Mae hyn yn codi ystyriaethau cyfreithiol ac economaidd ehangach sy'n peri pryder i ni.

8. Mae cefnogaeth, ond ychydig yn unig o ddadleuon newydd, o blaid dirymu cymalau "talu pan delir" mewn achosion ynglŷn ag ansolfedd i fyny'r afon

8.1 Roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu ar y mater yma, gan fod rhai'n cydnabod bod y ddarpariaeth gyfredol yn y ddeddfwriaeth yn deillio o gyfaddawd sylweddol rhwng sector contractio a sector is-gontractio y diwydiant adeiladu yn fuan cyn i'r ddeddfwriaeth wreiddiol gael ei deddfu. Dadleuodd nifer fawr o'r ymatebwyr o blaid gwahardd defnyddio cymalau talu pan delir yn achos ansolfedd ymhellach i fyny'n gadwyn daliadau. Mae enghreifftiau o ddadleuon o blaid newid y ddeddfwriaeth wedi'u nodi isod:

- Os oes cymalau talu pan delir yn gymwys mewn contract ac is-gontract (neu is-gontract ac is-gontract isradd), yn gyffredinol mae'r contractiwr yn cael trosglwyddo cyfran uwch o risg ansolfedd ei gleient drwy ddefnyddio'r cymal na'r is-gontractiwr gan ei fod yn debycach o wneud mwy o daliadau i fwy o daleion a'i fod mewn gwell sefyllfa i sicrhau ei sefyllfa ariannol drwy eu dal yn ôl.
- Os nad yw'r cymalau yn gymwys yn y naill gontract na'r llall, mae'n ddigon posibl y byddai'r contractiwr mewn gwell sefyllfa i reoli'r perygl o ansolfedd i fyny'r afon na'r is-gontractiwr y byddai'r perygl yn cael ei drosglwyddo iddo fel arall. Mae'n debyg y byddai gan y contractiwr fewnbwn arian parod helaethach a mwy cyson ar nifer fwy o brojectau ac y byddai felly yn debycach o dalu ei ddyledion heb gael ei dalu gan gleient a fyddai wedi torri.

8.2 Mae angen i'r dadleuon yma gael eu pwyso yn erbyn cwestiwn a yw unrhyw ganlyniad mewn achos ansolfedd yn fwy dymunol na'i gilydd, yn enwedig o gofio amrywiaeth y cwmnïau yn y diwydiant adeiladu. Nododd rhai ymatebwyr fod cwmnïau mwy a llai ym mhob sector ac ymhlith cleientau. Mae angen i unrhyw ateb ar ffurf deddfwriaeth fod yn well i bob cwmni, waeth beth fo'u pŵer yn y farchnad neu eu safle yn y gadwyn gyflenwi. Er y gall fod yn annymunol defnyddio'r cymalau mewn amrywiaeth o amgylchiadau, o leiaf mae'r fframwaith cyfredol yn gadael y partïon yn rhydd i gytuno ar yr hyn sydd orau iddyn nhw. Er hynny, cynigiodd llawer o'r ymatebwyr y ddadl bod cystadlu cryf yn arwain partïon i lofnodi contractau gyda chymalau nad ydyn nhw o bosibl er eu lles gorau.

8.3 Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cytuno â'r awgrym yn y papur ymgynghori y gallai yswirio yn erbyn ansolfedd i fyny'r afon fod yn symlach pe bai'r risg yn codi dim ond o ansolfedd un cam i fyny'r afon. Er hynny, chafodd y pwynt mo'i drafod yn gyffredinol a dydy hi ddim yn ymddangos bod polisïau yswiriant o'r fath yn gyffredin.

9. Mae cefnogaeth gyfyngedig a rhywfaint o ddadlau yn erbyn caniatáu taliadau fesul cam o dan y Cynllun am ddeunyddiau cyn iddyn nhw gyrraedd y safle

9.1 Er bod yr ymatebwyr yn gyffredinol yn cytuno ei bod yn angenrheidiol cael taliadau fesul cam am ddeunyddiau sy'n cael eu cadw oddi ar y safle, barn gymysg a gafwyd o ran a allai deddfwriaeth fod yn ffordd effeithiol i'w hybu. Un mater a godwyd oedd bod angen gwahaniaethu rhwng deunyddiau i'w rhoi at ei gilydd oddi ar y safle a deunyddiau yn cael eu cadw fel stoc gan gontractiwr a oedd yn cynnig gwasanaeth "cyflenwi a ffitio". Mae gweithgynhyrchydd sy'n cyflenwi ac yn ffitio'i gynhyrchion yn syrthio rhwng y ddau gategori yma.

9.2 Chafodd dim sylwadau manwl eu cyflwyno gan yr ymatebwyr am yr amddiffyniad arfaethedig a fyddai'n sicrhau bod perchnogaeth y deunyddiau'n glir yn ystod y broses dalu. Awgrymodd rhai o'r ymatebion y dylai hyn barhau yn fater i'r contract, er eu bod yn awyddus i'r Cynllun ddarparu hawl i gael taliad. Awgrymodd un ymateb y dylai'r berchnogaeth aros gyda'r talai, gyda'r taliadau'n gweithredu, i bob pwrpas, fel ernes. Dywedodd ymatebwyr eraill nad oedd y cynnig yn darparu ar gyfer amddiffyn y cyflogwr pe bai'n torri cyn i'r deunyddiau gyrraedd y safle. Mewn achos felly, fyddai dim ad-daliad ar gael.

9.3 Mynegodd rhai o'r ymatebwyr eu pryder nad oedden ni wedi cynnig diwygiadau i'r ddeddfwriaeth sylfaenol ar y pwnc yma. Mae'n ymddangos bod y ddarpariaeth ar daliadau fesul cam yn adran 109 yn glir o ran darparu y dylai taliadau fesul cam fod ar gael am unrhyw waith o dan y contract. Ymhellach, mae Rheoliad 2(2)(a) o Ran II o'r Cynllun yn darparu ar gyfer taliadau sy'n hafal i werth unrhyw waith o ddechrau'r contract ymlaen. Er hynny wnaeth yr ymatebwyr ddim cyflwyno sylwadau yn gyffredinol i ddweud a oedden ni wedi nodi'r broblem yn gywir wrth ddweud bod y ddarpariaeth yn Rheoliad 2 (2)(b) o Ran II sy'n ei gwneud yn ofynnol bod taliadau am ddeunyddiau yn cynnwys dim ond deunyddiau wedi'u gweithgynhyrchu ar y safle neu y daethpwyd â nhw i'r safle. Roedd yn ymddangos bod rhai o'r ymatebwyr yn gweld y broblem mewn termau gwahanol, gan awgrymu y gallai fod yn gwbl amhosibl sicrhau taliadau fesul cam o dan y trefniadau presennol cyn i'r deunyddiau gyrraedd y safle. Awgrymwyd dau ateb:

- darparu yn y Ddeddf Adeiladu pryd y mae'r hawl i gael taliadau fesul cyfnod yn codi; a
- darparu yn y Ddeddf Adeiladu y dylai taliadau fesul cam fod ar gael drwy gyfrwng proses o wneud cais fel eu bod yn dod yn ddyledus ar unrhyw adeg.

Dydy hi ddim yn glir pam mae'r cynnig cyntaf yn angenrheidiol o gofio'r ddeddfwriaeth bresennol na pha sail sydd i gredu bod y broblem yn ddigon difrifol i gyfiawnhau'r ail awgrym.

Cynigion ar ôl yr ymarfer ymgynghori

Hawl i atal gwaith o dan Adran 112

Nid dim ond annog partïon i'w defnyddio er mwyn sicrhau taliadau yw amcan gwella'r hawl i atal gwaith. Mae'r hawl wedi'i bwriadu hefyd i fod yn ffordd i ganiatáu i waith ar y safle a gwariant gan y cyflenwyr gael eu lleihau yn ystod cyfnodau pan nad ydyn nhw'n cael eu talu.

Yng ngoleuni'r ymatebion, rydyn ni'n bwriadu darparu hawl statudol i gael costau atal gwaith. Er hynny dydyn ni ddim o'r farn y gall deddfwriaeth neu'r contract ei hun gyfrifo beth ddylai'r costau hynny fod. Y rheswm am hyn yw y gall y costau newid yn ystod y project ac yn ystod cyfnod atal y gwaith. Byddai'n well i'r talai hawlio'r union gostau wrth iddyn nhw godi. Oherwydd hynny, rydyn ni'n cynnig y fframwaith canlynol:

- Dylai fod modd hawlio costau atal gwaith fel colled a thraul syml ar ôl y digwyddiad
- Os caiff taliadau eu gwneud, dylai fod modd hawlio costau ailddechrau gwaith ar gyfer cyfnod ailddechrau'r gwaith fel colled a thraul syml ar ôl y digwyddiad
- Dylid hawlio costau ailddechrau'r gwaith fel estyniad ar yr amser pan fydd y taliad yn cael ei wneud. Dylai uchafswm y cyfnod gael ei fynegi yn yr hysbysiad atal gwaith.
- Ym mhob un o'r tri achos, byddai'r ddyletswydd o dan y gyfraith gyffredin i liniaru colledion yn gymwys a dylai unrhyw anghydfod ynglŷn â'r costau allu cael ei ddyfarnu.
- Efallai y bydd yna rai gwasanaethau y mae'r parti sy'n atal y gwaith yn cynnig parhau i'w rhoi yn ystod cyfnod atal y gwaith. Dylai'r rhain hefyd gael eu datgan yn yr hysbysiad atal gwaith er mwyn rhoi cyfle i'r talwr benderfynu a yw'n cytuno â'r cynigion neu beidio. Gallai'r rhain gynnwys gwasanaethau a fyddai'n lleihau costau atal gwaith ar ôl i'r taliad gael ei wneud.

Cymalau gwrthgyfrif ar draws contractau

Dydyn ni ddim yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynnig yma. Rydyn ni wedi dod i'r casgliad y byddai angen i waharddiad ar gymalau gwrthgyfrif ar draws contractau gynnwys diffiniad statudol o gontractau â chysylltiad agos rhyngddyn nhw yn ogystal ag esboniad cyffredinol. Yn ogystal â chynnwys cytundebau fframwaith, byddai angen i hyn ddarparu digon o sicrwydd ynghylch pa bryd mae'r arfer yn bosibl drwy egwyddorion tegwch. Ni waeth pa mor dda y byddai'r diffiniad, rydyn ni'n credu ei bod yn anochel y byddai ymgyfreitha'n codi ynghylch sut i gymhwyso'r diffiniad statudol a pha bryd y gellir gwrthgyfrif rhwng contractau. Un effaith andwyol arall a fyddai'n bosibl fyddai bod partïon y contract yn ceisio defnyddio'r eithriad mewn mwy o

gontractau nag sy'n cynnwys cymalau gwrthgyfrif ar draws contractau ar hyn o bryd. Nodyn arall i sylwi arno yw bod hwn yn faes lle mae'r gyfraith ar ansolfedd at ei gilydd yn gadael i'r partïon gytuno arno yn eu contractau. O gymryd y materion yma i gyd i ystyriaeth, y casgliad y daethon ni iddo yw ei bod yn well i faterion gwrthgyfrif gael eu cynnwys yn nhelerau'r contract rhwng y partïon.

Cymalau talu pan delir mewn achosion ansolfedd

Dydyn ni ddim yn bwriadu dileu'r eithriad presennol rhag gwahardd cymalau talu pan delir ar gyfer achosion ansolfedd. Deilliodd hyn o gyfaddawd pragmataidd sylweddol rhwng y llywodraeth a'r diwydiant pan gafodd y Ddeddf Adeiladu ei phasio ym 1996. Er bod yr ymgynghori wedi bwrw goleuni newydd ar yr opsiynau presennol, roedd yr un dadleuon yr un mor wir ym 1996. Dydyn ni ddim yn credu y byddai'n briodol tanseilio'r cyfaddawd hwnnw heb dystiolaeth newydd.

Taliadau fesul cam am ddeunyddiau sy'n cael eu dal ar gyfer gwaith oddi ar y safle

Rydyn ni wedi dod i'r casgliad y gallai fod yn well trafod y mater yma mewn canllawiau yn y lle cyntaf. Fel y mae, rydyn ni hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes modd i ddiwygiad annibynnol ar yr is-ddeddfwriaeth, fel y'i cynigiwyd yn y papur ymgynghori, gael ei wneud drwy gyfrwng Gorchymyn Diwygio Rheoliadau o dan Ddeddf Diwygio Rheoliadau 2001. Os bydd y mater yma'n parhau yn broblem ar ôl i'r canllawiau gael eu cyhoeddi, bydd angen rhoi sylw iddo yn y dyfodol drwy gyfrwng offeryn statudol ar wahân. Mae nifer o faterion yn aros i'w datrys pe baen ni'n symud ymlaen drwy ddeddfu.

Pennod III – Cynigion ar gyfer dyfarnu

Lleihau'r anghymhellion sy'n atal anghydfodau rhag cael eu cyfeirio at ddyfarnwyr pan fydd hynny'n addas. Mae'r adolygiad wedi awgrymu y gallai'r rhain gynnwys osgoi'r broses neu'r canlyniad neu eu rhwystro, heriadau cyfreithiol diangen neu gostau annisgwyl neu ormodol.

Cynigion yr ymarfer ymgynghori

10. Atal defnyddio "cyfrifon budd-ddeiliaid ymddiriedol" i atal dyfarniad dyfarnwr wrth ddisgwyl ymgyfreitha heblaw pan fydd y derbynnydd yn rhan o achos ansolfedd
11. Rhoi pŵer i'r dyfarnwr i ddyfarnu ar agweddau penodol ar ei awdurdodaeth ei hun a rhoi hawl i gael taliad mewn achosion lle mae'r dyfarnwr yn tynnu'n ôl am nad oes ganddo awdurdodaeth
12. Rhoi hawl i'r dyfarnwr wyrdroi penderfyniadau "terfynol a phendant" os yw'r rhain yn berthnasol ar gyfer taliadau interim yn unig
13. Ymestyn imiwnedd y dyfarnwr o dan y Ddeddf Adeiladu i gynnwys hawliadau gan drydydd partïon
14. Cymhwyso darpariaethau ynghylch annibyniaeth dyfarnwyr yn y Cynllun Contractau Adeiladu at bob dyfarniad yn Adran 108 o'r Ddeddf Adeiladu

Ymatebion

10. Mae cefnogaeth o blaid atal defnyddio "cyfrifon budd-ddeiliaid ymddiriedol" i atal dyfarniad dyfarnwr hyd nes y ceir penderfyniad terfynol ar yr anghydfod drwy ymgyfreitha

10.1 Roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol o blaid y cynnig yma o ran egwyddor. Roedden nhw'n credu bod gallu partïon y contract i gytuno i delerau sy'n negyddu effaith dyfarniad yn fwlch yn y rheoliadau y mae angen ei gau. Mae rhai contractwyr yn cyfiawnhau cymalau o'r fath ar y sail y gall y derbynnydd dorri cyn i'r llysoedd benderfynu ar yr anghydfod yn derfynol. Erbyn hyn, mae'r llysoedd wedi egluro ar ba feini prawf y byddan nhw'n caniatáu gohirio gorfodi penderfyniad dyfarnwr hyd nes y ceir penderfyniad terfynol[2]. Roedd yr ymatebwyr yn credu at ei gilydd mai'r llysoedd yn unig a ddylai gael caniatáu gohiriad o'r fath.

10.2 Roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol hefyd yn gwrthod y cynnig y dylai fod modd gorfodi'r cymalau hyn mewn contractau pe bai derbynnydd dyfarniad y dyfarnwr yn torri. Hyd yn oed os na all cymalau o'r fath gael eu gorfodi, fe

2 Gweler Wimbledon Construction Company 2000 Limited -v- Derek Vago [2005] EWHC 1086, TCC 20 Mai 2005.

fyddai'r llysoedd yn cadw eu gallu i ganiatáu gohirio penderfyniad y dyfarnwr ac, os byddai'n angenrheidiol, ei gwneud yn ofynnol bod dyfarniad y dyfarnwr yn cael ei dalu i'r llys. Beth bynnag, mae'n ymddangos bod anawsterau ymarferol ac ariannol difrifol os yw'r dyfarnwr yn gweithredu fel budd-ddeiliad ymddiriedol hyd nes y ceir y penderfyniad terfynol ar anghydfod, fel y cynigiwyd darparu ar ei gyfer yn y Cynllun. Mae'n ymddangos hefyd mai di-sail at ei gilydd oedd y pryder y gallai achos gorfodi fod yn ffordd gostus o sicrhau bod penderfyniad dyfarnwr yn cael ei ohirio. Doedd yr ymatebwyr ddim yn credu bod costau gorfodi yn y llys yn rhy uchel.

11. Does fawr o gyfiawnhad dros roi pŵer i'r dyfarnwr i ddyfarnu ar agweddau penodol ar awdurdodaeth y dyfarnwr ei hun. Er hynny mae achos o blaid roi hawl i'r dyfarnwr i gael taliad mewn achosion lle mae'n tynnu'n ôl oherwydd ei ddiffyg awdurdodaeth

11.1 Fel rhan o'r cynnig blaenorol, rydyn ni'n ailedrych ar yr un yma hefyd, ar sail adborth nad yw costau penderfyniadau'r llysoedd ar awdurdodaeth yn rhy uchel. Ystyriodd yr ymarfer ymgynghori a allai cost dyfarnu a gorfodi gael ei gostwng pe gallai dyfarnwyr wneud penderfyniadau cyfrwymol ar gwestiynau awdurdodaeth. Cynigiwyd meysydd awdurdodaeth penodol lle gallai penderfyniad fod yn gyfrwymol hyd nes y ceid y dyfarniad terfynol.

11.2 Roedd cost gadael y penderfyniadau yma i'r llysoedd yn bryder yn adolygiad Syr Michael Latham ond y rheswm arall dros y cynnig oedd y broblem gyfredol bod llawer o heriau i awdurdodaeth yn cael eu gwneud yn ystod dyfarniad er mwyn iddyn nhw gael eu gwneud eto mewn achos gorfodi. Er hynny, does dim awgrym clir y byddai nifer yr heriau i awdurdodaeth y mae'r dyfarnwyr yn eu cael yn gostwng pe baen nhw'n gallu gwneud penderfyniad cyfrwymol ar bwyntiau penodol ynglŷn ag awdurdodaeth. Awgrymodd o leiaf un ymatebwr y gallai fod angen diweddaru'r canllawiau i ddyfarnwyr ar heriau awdurdodaeth yng ngoleuni'r gyfraith achosion ddiweddar[3].

11.3 Yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr o blaid cynnwys hawl i gael taliad i ddyfarnwyr os byddan nhw'n ymddiswyddo mewn ymateb i her i'w hawdurdodaeth. Mae'n ymddangos y byddai hyn yn dileu cymhelliant annilys i ddyfarnwyr gwblhau penderfyniad heb awdurdodaeth, gan ei bod yn bosibl na chân nhw eu talu oni bai eu bod yn gwneud hynny.

12. Mae achos dros roi hawl i'r dyfarnwr i agor penderfyniadau "terfynol a phendant" os yw'r rhain o bwys ar gyfer taliadau interim yn unig

12.1 I raddau helaeth, roedd yr ymatebwyr o blaid y cynnig yma o ran egwyddor ond yn gofidio am yr anghydbwysedd posibl rhwng dyfarnu a ffyrdd eraill o ddatrys anghydfodau pe bai dyfarnwyr yn unig â'r hawl i agor penderfyniadau terfynol a phendant o'r math yma. Pe bai statws terfynol a phendant penderfyniadau penodol yn amhriodol, nododd sawl ymatebwr y dylai fod yn aneffeithiol yn gyffredinol, nid dim ond o safbwynt y dyfarnwr.

3 Cododd un ymatebwr AMEC Capital Projects Ltd -v- Whitefriars City Estates Ltd [2004] EWCA Civ 1418, 28 Hydref 2004.

12.2 Heblaw'r uchod, roedd yr ymatebwyr yn cytuno yn gyffredinol â'r papur ymgynghori fod cymalau terfynol a phendant yn creu bwlch a oedd yn gosod penderfyniadau interim y tu allan i gylch gorchwyl y dyfarnwr hyd yn oed os gallan nhw gael eu diwygio gan benderfyniad dilynol o dan y contract. Nododd rhai o'r ymatebwyr na fyddai'n bosibl cywiro penderfyniad interim drwy gyfrwng gwrthgyfrifiad yn erbyn taliad a oedd wedi'i bennu gan ddyfarnwr[4]. Er hynny fyddai hynny ddim yn effeithio ar hawl gyffredinol y talwr i adhawlio unrhyw swm nad oedd yn ddyledus mewn gwirionedd. Nodwyd hefyd nad yw penderfyniadau interim yn ymwneud â thaliadau yn unig ond eu bod hefyd yn ymwneud â chwblhau gwaith ac estyniadau amser o dan y contract. Os oes penderfyniadau interim yn cael eu gwneud ar y materion yma, mae'n ymddangos y dylen nhw at ei gilydd allu cael eu dyfarnu.

12.3 Nododd rhai o'r ymatebwyr y gall rhan o benderfyniad interim fod o bwys ar gyfer y cyfrif terfynol er nad yw rhan arall. Er enghraifft, gallai prisiad interim ar waith gynnwys penderfyniad ar y gyfradd tâl am wasanaeth neu ddeunydd penodol a fyddai o bwys wedyn ar gyfer y prisiad yn y cyfrif terfynol er y gall taliadau dilynol fesul cam adolygu'r asesiad ar hyd a lled y gwasanaeth a roddwyd neu faint o ddeunyddiau a gafodd eu defnyddio. Byddai angen cymryd hyn i ystyriaeth wrth ddiwygio'r ddeddfwriaeth.

13. Mae rhywfaint o gefnogaeth i estyn imiwnedd y dyfarnwr rhag hawliadau gan drydydd partïon ond cododd ymatebwyr eraill ddadleuon llawn perswâd i'r gwrthwyneb

13.1 Cododd y cynnig y dylid rhoi imiwnedd statudol i'r dyfarnwyr nifer o faterion. Yn fwyaf arwyddocaol, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai'r dyfarnwyr – mewn rhai sefyllfaoedd – fod yn atebol am eu gweithredoedd fel mater o bolisi cyhoeddus. Mae i benderfyniadau am gynnydd gwaith, neu am gwblhau gwaith yn foddhaol, oblygiadau posibl ar gyfer iechyd a diogelwch y dylai'r dyfarnwr fod yn atebol amdanyn nhw. Gallai darparu imiwnedd mewn sefyllfaoedd o'r fath amddifadu parti diniwed a fyddai wedi'i niweidio o'r hawl resymol i ddwyn achos. Er mai prin yw'r penderfyniadau yma mewn dyfarniadau (gan fod y mwyafrif o'r dyfarniadau'n ymwneud ag anghydfodau am dalu), os ceir achos cyfreithiol wedyn, mae gan y dyfarnwr yswiriant indemniad proffesiynol.

13.2 Y pwynt arall a gafodd ei wneud oedd nad yw dyfarnwyr yn debyg beth bynnag o fod yn atebol am hawliadau fel colled economaidd, ac os felly doedd dim angen imiwnedd ar gyfer achosion o'r fath.

13.3 Roedd yr ymatebwyr yn credu mai isel iawn oedd y posibilrwydd y byddai'r naill hawliad neu'r llall yn cael ei wneud, ac felly hefyd y posibilrwydd y byddai posibilrwydd hawliad yn dylanwadu ar benderfyniad dyfarnwr.

4 Cafodd hyn ei seilio ar achos Levolux A T Ltd -v- Ferson Contractors Ltd [2003] EWCA Civ 11, 22 Ionawr 2003.

14. Mae cefnogaeth, ond dim achos clir, dros gymhwyso'r darpariaethau ar annibyniaeth y dyfarnwr ar y Cynllun at bob dyfarniad

14.1 Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'n ddoeth symud gofyniad y Cynllun bod rhaid i ddyfarnwyr ddatgan unrhyw gysylltiad â'r partïon i mewn i'r Ddeddf Adeiladu. Byddai hyn yn brawf ar eu hannibyniaeth yn ychwanegol at y gofyniad presennol ynglŷn â bod yn ddiduedd mewn dyfarniadau o dan y Ddeddf Adeiladu. Er hynny, doedd hi ddim yn ymddangos bod llawer o dystiolaeth gan yr ymatebwyr i awgrymu bod y gofyniad yma o werth, o gofio'r ffaith bod y llysoedd yn craffu'n fanwl ar y gofynion ynglŷn â bod yn ddiduedd, Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo bod pwyslais y papur ymgynghori ar brawf ychwanegol ar annibyniaeth yn ddiangen, o gofio pwyslais Deddf Cymrodeddu 1996 ar ddidueddwch yn unig. Awgrymodd yr ymatebwyr na allai prawf ar annibyniaeth warantu didueddwch a doedden nhw ddim yn gweld rheswm clir pam na allai dyfarniad cwbl ddiduedd gael ei gynnal gan ddyfarnwr a fyddai'n methu'r prawf annibyniaeth.

Cynigion ar ôl y papur ymgynghori

Atal defnyddio "cyfrifon budd-ddeiliaid ymddiriedol" i atal dyfarniad dyfarnwr – Rydyn ni'n bwriadu cynnwys darpariaeth newydd yn y Ddeddf Adeiladu i wahardd defnyddio cymalau mewn contractau sy'n atal effaith penderfyniad gan ddyfarnwr tan y penderfyniad terfynol.

Rhoi pŵer i'r dyfarnwr i ddyfarnu ar agweddau penodol ar ei awdurdodaeth ei hun – Dydyn ni ddim yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynnig yma. Efallai bod angen diweddaru'r canllawiau presennol i ddyfarnwyr ar heriau awdurdodaeth yng ngoleuni'r gyfraith achosion ddiweddar.

Rhoi hawl i'r dyfarnwr i gael taliad mewn achosion lle mae'r dyfarnwr yn tynnu'n ôl am nad oes ganddo awdurdodaeth – Rydyn ni'n bwriadu mewnosod darpariaeth yn y Ddeddf Adeiladu i roi hawl i gael taliad i'r dyfarnwr os bydd yn tynnu'n ôl mewn ymateb i her i'w awdurdodaeth.

Rhoi hawl i'r dyfarnwr agor penderfyniadau "terfynol a phendant" os yw'r rhain yn berthnasol ar gyfer taliadau interim yn unig – Rydyn ni'n bwriadu cynnwys darpariaeth yn y Ddeddf Adeiladu i ddirymu cymalau "terfynol a phendant" os ydyn nhw'n gymwys i benderfyniadau sy'n benderfyniadau interim am eu bod yn gallu cael eu diwygio gan benderfyniad dilynol o dan y contract.

Ymestyn imiwnedd y dyfarnwr o dan y Ddeddf Adeiladu i gynnwys hawliadau gan drydydd partïon a chymhwyso darpariaethau ar annibyniaeth dyfarnwr o'r Cynllun at bob dyfarniad – Dydyn ni ddim yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynigion yma.

Costau dyfarnu – Rydyn ni hefyd yn bwrw ymlaen ag ymrwymiad presennol y Llywodraeth ar gostau dyfarnu. Nodwyd hyn yn y cyflwyniad i'r papur ymgynghori ac enynnodd gefnogaeth gyffredinol. Gan hynny, rydyn ni'n bwriadu:

- gosod safle sylfaenol yn y ddeddfwriaeth y dylai'r partïon i ddyfarniad dalu eu costau cyfreithiol a'u costau eraill eu hunain; tra
- caiff costau'r broses (ffioedd a threuliau'r dyfarnwr a chost ei benodi) eu cyfeirio at y dyfarnwr i gael eu penderfynu fel rhan o'i benderfyniad ar yr anghydfod;
- darparu y bydd unrhyw gytundeb[5] yn y contract sy'n arwain at effaith heblaw'r uchod, yn aneffeithiol; ac
- unwaith y bydd anghydfod wedi'i gyfeirio at ddyfarnwr, os yw'r ddau barti hefyd yn dymuno cyfeirio'r costau cyfreithiol y byddan nhw'n eu hysgwyddo yn y broses, y dylai'r dyfarnwr ddyrannu'r rhain hefyd fel rhan o'i benderfyniad ar yr anghydfod.

5 Megis y cytundeb yn achos Bridgeway Construction Ltd -v- Tolent Construction Ltd, dim adroddiad wedi'i gyflwyno, 11 Ebrill 2000, TCC, Liverpool.

Atodiad 1 – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymarfer ymgynghori

Dadansoddiad o niferoedd yr ymatebion yn ôl y math o ymatebwr

- Cwmnïau Adeiladu (282):
  ...ac o'r rhain roedd 270 yn ymatebion safonol gan aelodau o'r canlynol:
  - y Cydffederasiwn Adeiladu (98)
  - Grŵp y Contractwyr Peiriannu Arbenigol (128)
  - Cyngor Cenedlaethol y Contractwyr Arbenigol (44)
- Cyrff masnachol a chyrff cleientau (10)
- Cyrff proffesiynol / Cyrff sy'n Enwebu Dyfarnwyr (15)
- Proffesiynolion / Ymgynghoriaethau Adeiladu (17)
- Cyrff Cyfreithiol / Cwmnïau Cyfreithiol / Cyfreithwyr / Bargyfreithwyr (17)
- Eraill (6)

...ynghyd ag ymatebion gan 8 corff a fu'n cymryd rhan yn adolygiad Syr Michael Latham ar y ddeddfwriaeth

- y Cydffederasiwn Adeiladu (Ymateb rhif 0178)
- Grŵp y Cleientau Adeiladu (Ymateb rhif 0337)
- Cyngor y Diwydiant Adeiladu (Ymateb rhif 0349)
- Grŵp Tasg Dyfarnu Cyrff Ymbarél Adeiladu (Ymateb rhif 0343)
- Ffederasiwn y Meistr-adeiladwyr (Ymateb rhif 0286)
- Cyngor Cenedlaethol y Contractwyr Arbenigol (Ymateb rhif 0293 – ymdriniodd yr ymateb â materion talu yn unig, ond datgan cefnogaeth i ymateb rhif 0244 o ran dyfarnu)
- Grŵp y Contractwyr Peirianegol Arbenigol (Ymateb rhif 0329)
- Cymdeithas Cyfreithwyr Technoleg ac Adeiladu (Ymateb rhif 0346)

Gwlad yr ymateb:

- Lloegr – 312
- Cymru – 13
- Yr Alban – 26
- Gogledd Iwrddon – 6

Gallwch weld yr holl ymatebion i'r papur ymgynghori ar y rhyngrwyd yn:
www.dti.gov.uk/construction/hgcra/consult_resp.htm
Mae rhestr o'r ymatebwyr ar gael ar y wefan hefyd.

Atodiad 2 – Cynigion nad oedden nhw'n destun ymgynghori ffurfiol fel rhan o'r ymarfer ymgynghori yma

Cododd adolygiad Syr Michael Latham faterion a gwnaeth gynigion mewn sawl maes na wnaethon ni eu hystyried yn ffurfiol fel rhan o'r ymarfer ymgynghori. Er hynny, mewn atodiad i'r papur ymgynghori, fe esboniwyd bod gennyn ni ddiddordeb mewn sylwadau a allai fod gan yr ymatebwyr ar ba mor bwysig a phriodol oedd y cynigion.

Roedd y cynigion yn ymrannu'n dri phrif gategori:

- Materion yr ymgynghorwyd yn eu cylch o'r blaen yn "Improving adjudication in the construction industry"
- Cynigion i ddeddfu dim ond er mwyn egluro'r gyfraith fel y mae wedi'i sefydlu gan y llysoedd
- Cynigion i ddeddfu i gyflwyno mesurau ar gyfer contractau adeiladu sy'n effeithio ar fframwaith deddfwriaeth arall ar dalu'n hwyr neu ddeddfwriaeth ansolfedd sy'n ymwneud â phob sector diwydiannol.

Dyma ddau arall:

- Diwygio ystyr 'tystiolaeth ysgrifenedig'.
- Diwygio hyd a lled y ddeddfwriaeth.

Yn y papur ymgynghori, rhoeson ni esboniad hirach ar ein rhesymau mewn sawl achos. Cymysg, ond cymharol brin, fu sylwadau'r ymatebwyr ar y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen i ymgynghori ar yr argymhellion yma. Dydyn ni ddim wedi dadansoddi'r ymatebion yn yr un ffordd ffurfiol ag yn achos deunyddiau'r papur ymgynghori, ond rydyn ni wedi ystyried y pwyntiau a godwyd. Diben yr atodiad yma yw ymateb i'r pwyntiau yma lle roedden nhw'n newydd a lle mae'n ddefnyddiol o ran ychwanegu at y drafodaeth ar ddiwedd y papur ymgynghori.

Cyflwyno un weithdrefn ddyfarnu ar gyfer pob dyfarniad – Ar ôl inni ddweud bod y cynnig yma wedi bod yn destun ymgynghori yn 2001, fe dynnwyd ein sylw at y ffaith na wnaeth papur ymgynghori y DETR ar "Improving Adjudication in the Construction Industry" (2001) ymgynghori'n benodol ar y mater yma. Trafod y cynnig wnaeth y papur, gan ddweud "...it would be premature to consider amending the Construction Act...". Er hynny, achubodd nifer o'r ymatebwyr ar y cyfle yn 2001 i gyflwyno sylwadau ar y

cynnig a'i wrthwynebu o ran egwyddor, gan gynnwys sawl un o gyrff cynrychioli'r diwydiant adeiladu. O gofio nad oedd grŵp adolygu Syr Michael Latham yn llwyr o blaid, ac nad achubodd yr ymatebwyr ar y cyfle i gyflwyno tystiolaeth newydd yn eu hymateb i'r ymarfer ymgynghori yn 2005, does gennyn ni ddim bwriad i fynd ymhellach â'r cynnig yma. Efallai yr hoffai'r diwydiant ystyried a ddylai gysoni ei weithdrefnau dyfarnu safonol ei hun â'i gilydd yn well.

Diwygio ystyr "tystiolaeth ysgrifenedig" – Mae nifer o'r ymatebwyr wedi anghytuno â'r safbwynt a arddelwyd yn y papur ymgynghori, sef ein bod yn cytuno â phenderfyniad y Llys Apêl yn RJT Consulting v DM Engineering (NI)[6] ar ystyr "contracts evidenced in writing" at ddibenion adran 107 o'r Ddeddf Adeiladu. Mae eu pryderon fel a ganlyn:

- Pan gytunir ar gontractau adeiladu, mae hynny'n cael ei seilio fel arfer ar gytundeb anghyflawn ar delerau'r contract, ar y ddealltwriaeth y bydd manylion terfynol cytundeb llawn yn cael eu pennu ymhen amser. Mae hyn yn deillio o broses lle mae gwaith yn cael ei hysbysebu a lle mae tendrau'n cael eu cyflwyno ar y ddealltwriaeth y caiff math safonol o gontract ei ddefnyddio. Wedyn mae tendr yn cael ei dderbyn a dim ond bryd hynny y bydd y ddau barti yn cyflwyno i'w gilydd restr o ddiwygiadau pwrpasol y maen nhw'n eu gwneud fel rhan o'r drefn i'r contract safonol o dan sylw. Wedyn rhaid i'r diwygiadau gael eu hystyried, eu derbyn neu eu gwrthod a'u cysoni yn erbyn ei gilydd. Yn aml mae'r broses yma'n cael ei gadael yn anghyflawn, gan adael sail ar gyfer anghydfod ynghylch a gafodd y contract ei gwblhau a'i gofnodi'n llawn mewn ysgrifen ac a yw'r Ddeddf Adeiladu yn gymwys ai peidio.
- Mae adran 107 wedi'i seilio ar eiriad adran 5 o Ddeddf Cymrodeddu 1996, sy'n ei gwneud yn ofynnol seilio cytundeb cymrodeddu rhwng y partïon mewn cymrodeddiad ar dystiolaeth ysgrifenedig. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r ddarpariaeth yn gwneud synnwyr gan nad oes darpariaeth statudol wrth gefn os nad yw'r cytundeb cymrodeddu wedi'i gofnodi'n iawn. Mae'r ymatebwyr wedi awgrymu nad yw'r ddarpariaeth yn gwneud synnwyr fel y mae wedi'i dehongli yn achos dyfarniad, lle mae'n ymddangos bod y gofyniad bod rhaid i holl delerau'r contract gael eu cytuno mewn ysgrifen yn rhy gul. Yn achos dyfarniad, mae yna weithdrefn statudol wrth gefn, ac felly does dim angen i'r weithdrefn ddyfarnu gael ei chytuno mewn ysgrifen, nac yn bendant, er mwyn i fframwaith y ddeddfwriaeth fod yn effeithiol. Drwy ddadl debyg, does dim rhaid cytuno mewn ysgrifen ar yr un rhan o'r contract lle mae'r Cynllun yn darparu gweithdrefn wrth gefn.

6 RJT Consulting Engineers Ltd -v- DM Engineering (NI) Ltd [2002] EWCA Civ 27, 8 Mawrth 2002

- Gall penderfyniad dyfarnwr ar delerau y cytunwyd arnyn nhw yn y contract fod yr un mor gymhleth p'un a gafodd y contract ei gofnodi mewn ysgrifen neu beidio. Gall y partïon anghytuno ynghylch p'un oedd y cytundeb terfynol neu ba fath o gontract arfaethedig neu ddiwygiadau i'r contract oedd yn gymwys ac yn anghymwys. Yn yr un modd, gall penderfyniad dyfarnwr am gytundebau a gafodd eu gwneud yn ystod y gwaith fod yr un mor gymhleth, unwaith eto ni waeth a gafodd y cytundebau eu cofnodi mewn ysgrifen neu beidio. Ym mhob achos mae'n rhaid i'r dyfarnwr benderfynu pa gytundeb a gafodd ei wneud, a hynny ar sail y dystiolaeth a'r hyn sy'n fwyaf tebygol. Effaith dehongliad cul y llysoedd ar adran 107 yw caniatáu i ddyfarnwyr wneud penderfyniadau ar unrhyw gytundeb, heblaw cytundeb contractiol lle nad yw wedi'i gofnodi mewn ysgrifen.

Rydyn ni am ystyried ymhellach i ba raddau y gall y sefyllfa gyfredol gael ei gwella drwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth. Er hynny, mae'n glir nad oes modd diwygio Adran 107 o'r Ddeddf Adeiladu drwy gyfrwng Gorchymyn Diwygio Rheoliadau o dan Ddeddf Diwygio Rheoliadau 2001, fel y cynigwyd ar gyfer diwygiadau eraill yr ymarfer ymgynghori. Oherwydd hynny, rydyn ni am ystyried a fydd angen deddfu ar wahân, ar amserlen hirach. Mae'n debyg y bydd hyn yn fater i ymgynghori yn ei gylch yn y dyfodol.

Atodiad 3 – Cod ymarfer ymgynghori Swyddfa'r Cabinet

Y chwe maen prawf ar gyfer ymgynghori

1. Ymgynghorwch yn eang drwy gydol y broses, a chaniatáu o leiaf 12 wythnos ar gyfer ymgynghori ysgrifenedig o leiaf unwaith wrth ddatblygu'r polisi.
2. Byddwch yn glir beth yw'ch cynigion, ar bwy y gallen nhw effeithio, pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn a'r amserlen ar gyfer ymatebion.
3. Gwnewch yn siŵr fod eich ymgynghori yn glir ac yn gryno, a'i fod ar gael yn eang.
4. Rhowch adborth ynghylch yr ymatebion sy'n dod i law ac ynghylch sut y dylanwadodd y broses ymgynghori ar y polisi.
5. Monitrwch pa mor effeithiol yw'ch adran wrth ymgynghori, gan gynnwys drwy ddefnyddio cydlynydd ymgynghori dynodedig.
6. Gwnewch yn siŵr fod eich ymgynghori'n dilyn arferion gorau rheoleiddio gwell, gan gynnwys cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddio os yw'n briodol.

Mae'r cod cyfan ar gael ar wefan Swyddfa'r Cabinet yn:
www.cabinetoffice.gov.uk/regulation/consultation/code.asp

Atodiad 4 – Dadansoddiad ystadegol ar yr ymatebion i'r cwestiynau yn ffurflen ymateb yr ymarfer ymgynghori

Ar ddiwedd pob adran yn y papur ymgynghori cafwyd cyfres o gwestiynau am y cynigion yn yr adran honno, a'u heffaith bosibl o safbwynt y rheoliadau. Daethpwyd â detholiad o'r cwestiynau yma ynghyd ar ddiwedd y papur ymgynghori ar ffurflen ymateb. Mae'r canlynol yn grynodeb o ddadansoddiad ystadegol ar yr atebion a gafwyd i gwestiynau'r ffurflen ymateb. O gofio nifer fach yr ymatebion, doedden ni ddim yn teimlo ei bod yn briodol gwneud dadansoddiad ystadegol o'r ymatebion i'r cwestiynau eraill. Hefyd, dydyn ni ddim wedi cynnwys yn y dadansoddiad yr atebion i'r cwestiynau a oedd yn gofyn am ateb ar ffurf testun yn hytrach nag ateb o blith cyfres o ddewisiadau neu ateb meintiol.

Dydy'r dadansoddiad ddim yn pwysoli'r ymatebion. Cafodd rhai o'r ffurflenni eu llenwi gan gynrychiolwyr cwmnïau mawr a chafodd eraill eu llenwi gan un unigolyn. Dydyn ni ddim wedi gwahaniaethau rhyngddyn nhw. Rydyn ni wedi dileu unrhyw ymatebion a oedd yn eglur yn llungopïau neu wedi'u dyblygu o ymatebion eraill a oedd wedi dod i law. Barnwyd bod y rhain yn debyg i'r nifer fawr o lythyrau a ddaeth i law oddi wrth ymatebwyr a oedd yn ategu ymatebion sefydliadau.

Ar sail y meini prawf uchod, dadansoddwyd cyfanswm o 55 o ymatebion.

Pennod 1

C1.1 Ydych chi'n cytuno y byddai'r fframwaith taliadau o dan y Ddeddf Adeiladu yn well pe bai diffiniad yn cael ei gynnwys o beth yw mecanwaith digonol ar gyfer talu?

Ydw – 40 (78% o'r atebion)

Nac ydw – 11 (22% o'r atebion)

DA (dim ateb) – 4

Er bod rhai o'r ymatebwyr yn awgrymu bod y dull yma yn rhy orfodol, roedd eraill yn teimlo bod angen egluro'r gofyniad yn yr adran bresennol 110(1). Awgrymodd eraill y gallai eglurhad felly gael ei roi mewn canllawiau.

C1.3 Ydych chi'n cytuno y dylai fod yna ofyniad pendant bod rhaid i'r mecanwaith digonol gynnwys telerau sy'n datgan:

a) Pa symiau sy'n ffurfio'r taliad o dan y contract;

b) Pa bryd y mae taliad i gael ei asesu o dan y contract;

c) Sut mae'r symiau i gael eu pennu;

d) Y cyfnod amser a ddylai fynd heibio rhwng pwynt asesu'r taliad a'r dyddiad terfynol ar gyfer talu;

e) Pa wybodaeth sydd i'w chyfleu rhwng y partïon (pwy sy'n rhoi beth, i bwy yn ystod y broses a pha mor fanwl);

Mae canrannau'r ymatebwyr a atebodd **Ydw** i bob rhan o'r cwestiwn yma wedi'u darlunio isod.



Mynegodd rhai o'r ymatebwyr y pryder y gallen ni fod yn cynnig y dylai adran 110(1) ragnodi'r telerau y dylai'r contractau eu cynnwys ym mhob un o'r meysydd sydd wedi'u rhestru uchod. Mewn gwirionedd, roedden ni'n cynnig y dylai adran 110(1) ei gwneud yn ofynnol i'r contract gynnwys telerau ym mhob un o'r meysydd yma. Byddai'r telerau eu hunain yn cael eu cytuno gan y partïon.

C1.6 A bwrw bod y gofyniad bod rhaid cael mecanwaith digonol yn y Ddeddf Adeiladu yn cael ei gynnwys yn unol â'r cynnig, ydych chi'n cytuno bod y mecanwaith yn y Cynllun yn bodloni holl ofynion y mecanwaith talu fel y mae wedi'i gynnig?

Ydw – 28 (64% o'r atebion)

Nac ydw – 16 (36% o'r atebion)

DA – 11

Cododd rhai o'r ymatebwyr y broblem nad yw'r Cynllun yn dweud prisiad pwy ar y gwaith a wnaed a ddylai gael ei gymryd fel y swm sy'n ddyledus o dan y contract.

C2.2 Ydych chi'n cytuno y dylai'r gofyniad yn Adran 110(2) gael ei ddileu a'i ddisodli gan ddiffiniad clir yn y ddeddfwriaeth o ystyr "mecanwaith digonol i benderfynu pa daliadau sy'n ddyledus o dan y contract, a pha bryd"?

Ydw – 32 (65% o'r atebion)

Nac ydw – 17 (35% o'r atebion)

DA – 6

Cafodd yr ymatebion eu lliwio gan y ffaith bod rhai o'r ymatebwyr yn erbyn y cynnig i ddiffinio ystyr "mecanwaith digonol" yn Adran 110(1). Roedd nifer o'r ymatebwyr o blaid cadw adran 110(2) yn niffyg darpariaeth glir yn y Ddeddf Adeiladu ynghylch mynegi'r swm sy'n ddyledus.

C2.3 Os byddwn yn dileu'r gofyniad yma, ydych chi'n cytuno y dylai'r cysyniad o "dyddiad dyledus" gael ei ddileu o'r ddeddfwriaeth ar yr un pryd, a'i ddisodli, er enghraifft, gan "dyddiad asesu"?

Ydw – 30 (65% o'r atebion)

Nac ydw – 16 (35% o'r atebion)

DA – 9

Mynegodd rhai o'r ymatebwyr amheuon am newid darpariaeth yn y Ddeddf Adeiladu a oedd at ei gilydd yn cael ei deall.

C2.5 Pe bai'r gofyniad bod rhaid cael hysbysiad talu yn Adran 110(2) yn cael ei ddileu, ydych chi'n cytuno y dylai'r gofyniad bod rhaid cael hysbysiad talu ym Mharagraff 9 o Ran II o'r Cynllun gael ei gadw fel mecanwaith talu wrth gefn ar gyfer achosion lle mae'r mecanwaith yn y contract yn annigonol?

Ydw – 34 (74% o'r atebion)

Nac ydw – 12 (26% o'r atebion)

DA – 9

Cododd rhai o'r ymatebwyr y broblem na fyddai'r Cynllun, yn niffyg Rhan II Adran 9, yn gwneud darpariaeth ar gyfer mynegi'r swm dyledus rhwng y partïon.

C2(i) Os ydych yn credu y dylai'r gofyniad bod rhaid cael hysbysiadau Adran 110(2) gael ei ollwng, fyddai hynny'n gwrthgyfrif unrhyw faich a fyddai'n deillio o'r bwriad i newid Adran 110(1)

Byddai – 11 (31% o'r atebion)

Na fyddai – 24 (69% o'r atebion)

DA – 20

Dywedodd nifer o'r ymatebwyr:

- *bod mynegi'r taliad yn un o ofynion y busnes beth bynnag;*
- *nad oes sancsiwn o dan y ddeddfwriaeth am beidio â chydymffurfio â'r gofyniad bod rhaid rhoi hysbysiad talu;*

...ar y sail yma roedden nhw o'r farn bod dileu adran 110(2) yn llai o ostyngiad ar y baich rheoleiddiol nag roedden ni wedi'i ragdybio. Ers i'r ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi, mae Swyddfa'r Cabinet wedi datblygu fframwaith ar gyfer mesur y baich gweinyddol sy'n cael ei greu gan reoliadau. Byddai'n diystyru'r ddau ffactor hyn ar y sail bod rhaid i ofyniad mewn rheoliadau gael ei ddilyn a'i fod felly yn creu cost.

C2(ii) Beth yw'ch amcangyfrif chi o gost ariannol cyflwyno hysbysiad Adran 110(2)?

Rhoddodd 10 o'r ymatebwyr amcangyfrifon penodol.

Cymedr – £33.15

Canolrif – £15.00

Daethom i'r casgliad mai rhyw £25.00 y taliad yw cost rhoi hysbysiad talu.

C2(iii) Pa mor aml ydych chi'n credu bod hysbysiadau Adran 110(2) yn cael eu cyflwyno o dan gontractau adeiladu?

Mae'r atebion wedi'u darlunio yn y graff isod.



Ar sail 40 o ymatebion

Cymedr – 34.25

Canolrif – 37.5

Modd – 37.5

Rydyn ni o'r farn ei bod yn rhesymol casglu mai tua 40% yw lefel y cydymffurfio â'r gofyniad mewn contractau bod rhaid cael hysbysiad talu yn unol ag Adran 110(2).

C2(iv) Pa mor aml ydych chi'n credu bod anghydfod ynghylch talu'n codi yn rhannol oherwydd methiant talwr i gyflwyno hysbysiad talu o dan Adran 110(2) o'r Ddeddf Adeiladu a / neu gamddeall bod yna hawl gyfreithiol i gael taliad am y swm yn yr hysbysiad os caiff ei gyflwyno?

a) o ganlyniad i fwy nag un ym mhob 10 methiant i gyflwyno hysbysiad talu – **13**

b) o ganlyniad i rhwng un ym mhob 10 ac un ym mhob 100 o fethiannau – **11**

c) o ganlyniad i lai nag un ym mhob 100 o fethiannau i gyflwyno hysbysiad talu – **13**

dim ateb – **18**

Ar sail yr ymateb yma, rydyn ni o blaid opsiwn (b).

C3.1 Ydych chi'n credu y dylai cais fod ar gael i dalai gyflwyno'r hysbysiad...

a) fel hawl pan fydd angen gwneud hynny (fel yn ein cynnig ni) – **28**

b) fel un o ofynion contract sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Adeiladu – **11**

c) os nad yw'r contract yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cais – **1**

d) dan amgylchiadau eraill (rhowch y manylion)? – **0**

e) Ddim o gwbl? – **7**

dim ateb – **8**

Mae'n ymddangos ei bod yn well gan rai o'r ymatebwyr opsiwn a) nag opsiwn b) ar y sail ei fod yn llai gorfodol o ran telerau'r contractau. Efallai bod eraill yn credu ei bod yn fwy effeithiol os gallan nhw ymyrryd â'r ffordd y mae'r telerau y cytunwyd arnyn nhw yn gweithio o dan hawl statudol yn hytrach na gweld unrhyw gytundeb ar y telerau hynny yn cael ei reoli gan statudau.

C3.5 Ydych chi'n credu y dylai fod gan y talwr:

a) dim hawl i ymateb i'r cais? – **5**

b) hawl gyffredinol i ymateb i'r cais? – **21**

c) hawl benodedig i ymateb gyda gofynion o ran cynnwys a / neu amser yr ymateb (rhowch y manylion)? – **18**

d) rhywbeth arall – rhowch y manylion? – **1**

dim ateb – **10**

Roedd yn ymddangos bod yr unig ymatebwr a ddewisodd opsiwn (d) yn argymell amrywiad ar opsiwn (c).

C3.7 Ydych chi'n credu y dylai'r swm y gwneir cais amdano ddod yn daladwy erbyn y dyddiad terfynol sydd wedi'i bennu ar gyfer talu o dan y ddeddfwriaeth?

a) Nac ydw (fel yn ein cynnig ni)? – **17**

b) Ydw – ond dim ond os nad yw'r talwr wedi ymateb i'r cais? – **15**

c) Ydw – ond dim ond i'r graddau a fyddai'n briodol ym marn dyfarnwr, cymrodeddwr neu lys o dan amgylchiadau penodol? – **1**

d) Ydw – ond dim ond i'r graddau y byddai'r talwr yn cytuno (gan adael dyfarnu etc ar gyfer datrys unrhyw anghydfodau)? – **5**

e) Ydw – o dan ddeddfwriaeth fel gofyniad awtomatig o dan amgylchiadau penodol? Os felly, pa amgylchiadau? – **3**

f) Ydw – rhywbeth arall (rhowch y manylion)? – **1**

Dim ateb – **13**

Awgrymodd y rhai a ddewisodd opsiynau (e) ac (f) rannau o fecanwaith talu a allai fod yn gymwys yn benodol i brisio amrywiadau ar y contract. Efallai bod eraill yn ceisio dod o hyd i ymagwedd rywle rhwng y dulliau sydd i'w cael yn opsiynau (a) a (b).

C3(i) Beth yn eich barn chi fydd cost weinyddol a) gwneud cais o dan y ddeddfwriaeth fel y mae wedi'i ddisgrifio yn adran 3.5 a b) derbyn cais o'r fath? Sut byddai hyn yn cymharu â'r costau cyfredol? (rhowch y manylion yn eich ateb fel £ am bob taliad)

Dim ond dau o'r ymatebwyr a oedd yn teimlo y gallen nhw amcangyfrif symiau penodol, er bod eraill wedi awgrymu amrediad costau. Roedd yn glir bod rhai yn teimlo mai isel iawn oedd y cynnydd yng nghostau'r ceisydd, o gofio bod ceisiadau'n cael eu rhoi fel rhan o'r drefn beth bynnag, yn aml hyd yn oed lle nad yw'r contract yn darparu ar gyfer proses gwneud cais. Roedd yn glir beth ym marn yr ymatebwyr fyddai'r goblygiadau o ran costau'r ymatebydd.

C3(iii) P'un o'r canlynol fyddai'r ffordd debycaf yn eich barn chi i'r hawl i wneud cais a gynigiwyd yn adran 3 gael ei defnyddio?

a) Mewn ymateb i'r mwyafrif mawr o drafodion talu o dan y ddeddfwriaeth bresennol neu'r "mecanwaith digonol" arfaethedig – **28**

b) Pan fydd y talai yn anfodlon ar y swm y cynigir ei dalu – **1**

c) Pan fydd y talai'n credu bod mecanwaith y contract talu wedi methu ac y dylai swm fod wedi'i bennu – **4**

d) Ar ddiwedd y cyfnod dal yn ôl o dan Adran 111 o'r Ddeddf Adeiladu pan fydd y talai'n anfodlon ar y swm y cynigir ei ddal yn ôl a / neu ei dalu – **1**

e) Pan fydd y talai'n credu nad yw wedi cael y taliad sy'n ddyledus erbyn y dyddiad terfynol ar gyfer talu o dan y contract? – **1**

f) Rhywbeth arall – rhowch y manylion – **0**

Dim ateb – **20**

Er bod nifer fawr o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn methu ag ateb y cwestiwn yma, mae'n ymddangos bod yr ymateb yn darlunio i ba raddau y byddai hawl i wneud cais yn y ddeddfwriaeth yn rhedeg ochr yn ochr â'r mwyafrif o fecanweithiau'r contract.

C3(iv) O gofio'ch ateb uchod, pa mor aml ydych chi'n credu y byddai'r hawl i wneud cais yn cael ei defnyddio o dan y cynnig yn adran 3.5?

Mae'r atebion wedi'u darlunio yn y graff isod.



Ar sail 34 o ymatebion

Cymedr – 76.5%

Canolrif – 97.5%

Modd – 97.5%

O gofio nifer yr ymatebwyr sydd heb roi ateb, mae'n anodd dod i unrhyw gasgliad clir ond rydyn ni o'r farn y byddai defnyddio'r broses arfaethedig ar gyfer gwneud cais yn dod yn gyffredin yn y diwydiant.

C3(v) Ydych chi'n credu y byddai nifer a chymhlethdod yr anghydfodau yn y diwydiant adeiladu yn debyg o gynyddu ynteu gostwng drwy ganiatáu gwneud cais fel yn y cynnig yn adran 3.5? Rhowch eich rhesymau.

Cynyddu – 4

Gostwng – 15

Dim newid – 19

Dim ateb – 17

Fel gyda'r cwestiynau eraill yn yr adran yma, datgelodd yr ymatebion ei bod yn bosibl nad oedd rhai o'r ymatebwyr yn deall y fframwaith dewis ar gyfer gwneud ceisiadau yn y papur ymgynghori.

C4.2 Yn sgil dileu Adran 110(2) a chynnwys diffiniad o "fecanwaith digonol" yn Adran 110(1), ydych chi'n cytuno y dylai Adran 111 gynnwys gofyniad bod rhaid nodi'r swm y mae'r parti sy'n talu yn bwriadu ei dalu yn ogystal â'r swm/symiau sydd i'w dal yn ôl?

Ydw – 38 (79% o'r atebion)

Nac ydw – 10 (21% o'r atebion)

DA – 7

Ymhlith y rhai a anghytunodd â'r cynnig, roedd rhai o'r farn na fyddai'n gwneud fawr o wahaniaeth i'r sefyllfa bresennol.

C4.3 Ydych chi'n cytuno na fyddai'n briodol diwygio'r ddeddfwriaeth i gynnwys disgrifiad o'r hyn a fyddai'n "fanylion digonol" wrth roi seiliau dros ddal taliad yn ôl mewn Hysbysiad Adran 111?

Ydw – 25 (54% o'r atebion)

Nac ydw – 21 (46% o'r atebion)

DA – 9

Ymateb cymysg a roddwyd i safbwynt y papur ymgynghori yn hyn o beth. Roedd yn glir bod ar lawer o'r ymatebwyr eisiau sicrhau bod y broses dal yn ôl mor effeithiol â phosibl o ran dod o hyd i'r rhesymau dros ddal taliad yn ôl. Nododd eraill mai'r unig reswm dros yr hysbysiad oedd caniatáu i'r talai ystyried a oedd y swm a ddaliwyd yn ôl yn ddigon o sail ar gyfer anghydfod. Wedyn byddai'r rhesymau llawn dros ei ddal yn ôl yn cael eu rhoi yn ystod y broses o ddatrys yr anghydfod.

C4(i) Ydych chi'n cytuno gyda'n hasesiad ni nad oes fawr ddim cost i'r talwr yn sgil datgan y taliad y mae'n bwriadu ei dalu bellach wrth iddo roi hysbysiad dal yn ôl?

Ydw – 38 (90% o'r atebion)

Nac ydw – 4 (10% o'r atebion)

DA – 13

Nododd rhai o'r ymatebwyr nad yw'r asesiad yma ynddo'i hun yn cyfiawnhau newid y ddeddfwriaeth.

C5.4 Os oes trefniant "talu ar ôl ardystio" wedi'i ddarparu mewn contract, ydych chi'n cytuno...

a)...y dylai'r contract nodi'r elfen waith yn y dystysgrif, a'r gwaith is-gontract yn rhan o'r elfen honno, a pha bryd y bydd y dystysgrif yn ddyledus o dan y prif gontract ar gyfer yr elfen o dan sylw?

Ydw – 30 (77% o'r atebion)

Nac ydw – 9 (23% o'r atebion)

DA – 16

b) ...y dylai'r contract fynnu bod copi o'r dystysgrif yn cael ei drosglwyddo i'r is-gontractiwr o fewn pum diwrnod ar ôl dyddiad penderfynu'r tâl?

Ydw – 29 (72% o'r atebion)

Nac ydw – 11 (28% o'r atebion)

DA – 15

C5.5 Ymhellach, os yw'r swm sydd i'w dalu o dan yr is-gontract i'w bennu drwy'r dystysgrif o dan y prif gontract (trefniant "talu yr hyn a ardystiwyd"), ydych chi'n cytuno y dylai'r is-gontract...

a)...darparu y caiff y gwaith ei brisio'n unigol yn y dystysgrif fel rhan o'r pecyn gwaith sydd wedi'i gynnwys ynddi?

Ydw – 29 (72% o'r atebion)

Nac ydw – 11 (28% o'r atebion)

DA – 15

b) ...disgrifio sut y caiff y taliad sy'n ddyledus o dan yr is-gontract ei benderfynu ar sail y pris yn y dystysgrif?

Ydw – 29 (76% o'r atebion)

Nac ydw – 9 (24% o'r atebion)

DA – 17

C5.6 Ydych chi'n credu bod y cynnig yn briodol ar gyfer trefniadau "contractio rheoli" os yw'r rheiny'n cynnwys cymalau "talu ar ôl ardystio"?

Ydw – 26 (60% o'r atebion)

Nac ydw – 17 (40% o'r atebion)

DA – 12

C5.7 Ydych chi'n credu bod y cynnig yn briodol ar gyfer contractau sydd ag "isgontractwyr wedi'u henwebu" os yw'r rheiny'n cynnwys cymalau "talu ar ôl ardystio"?

Ydw – 31 (72% o'r atebion)

Nac ydw – 12 (28% o'r atebion)

DA – 12

Dim ond am farn ar y fframwaith ar gyfer rheoleiddio talu ar ôl ardystio a thalu yr hyn a ardystiwyd y gofynnodd ffurflen ymateb yr ymarfer ymgynghori. Dydy hi ddim yn glir faint fyddai wedi gwrthod rheoleiddio, a gwneud pob un o'r cymalau yma'n amhosibl i'w gorfodi, pe bai'r cwestiwn

wedi'i ofyn. Er hynny, fe fynegodd llawer a wrthododd y rheoleiddio arfaethedig neu a wrthododd ymateb i'r cwestiynau bryderon o ran egwyddor ynglŷn â defnyddio'r cymalau yma.

C5(i) Pa gyfran o is-gontractau ydych chi'n credu eu bod yn cynnwys cymalau "talu ar ôl ardystio" ar gyfer un neu fwy o'r camau talu?

C5(ii) Pa gyfran o gontractau ydych chi'n credu eu bod yn cynnwys cymalau "talu yr hyn a ardystiwyd" ar gyfer un neu fwy o'r camau talu?

Mae'r atebion i'w cwestiynau yma wedi'u darlunio ar y graff isod.



C5(i) **Cymedr – 46%**

Canolrif – 37.5%

Modd – 62.5%

C5(ii) **Cymedr – 29%**

Canolrif – 37.5%

Modd – 37.5%

Rydyn ni o'r farn y gall cymalau talu pan delir fod yn cael eu defnyddio mewn rhyw 50% o'r contractau. O gofio'r ymateb isel ar gymalau talu yr hyn a ardystiwyd, mae amcangyfrif yn bur annibynadwy ond mae'n bosibl eu bod yn cael eu defnyddio mewn tua 25% o'r contractau.

C5(iii) Pa mor aml ydych chi'n credu bod anghydfod ynghylch talu'n codi yn rhannol am fod cymal "talu ar ôl ardystio" neu gymal "talu yr hyn a ardystiwyd" wedi'i gynnwys?

a) o ganlyniad i fwy nag un ym mhob 10 cymal mewn contractau – **8**

b) o ganlyniad i rhwng un ym mhob 10 ac un ym mhob 100 o gymalau mewn contractau – **17**

c) o ganlyniad i lai nag un ym mhob 100 o gymalau mewn contractau – **6**

dim ateb – **24**

Pennod 2

C6.1 **a C6.2** Ydych chi'n cytuno bod angen ategu'r hawl i atal perfformiad o dan y contract? Ydych chi'n credu y dylai hawl atal estynedig gynnwys:

a) yr hawl i adennill costau rhesymol atal gwaith?

b) yr hawl i adennill costau rhesymol ailddechrau gwaith?

c) yr hawl i fynnu oediad priodol cyn ailddechrau gwaith?

Ydw – 45 (92% o'r atebion)

Nac ydw – 4 (8% o'r atebion)

DA – 6

Dyma'r gefnogaeth gryfaf a fynegwyd i unrhyw un o'r cynigion yn y papur ymgynghori.

C6.3 Ydych chi'n cytuno mai'r ffordd orau i ymdrin â chwestiwn beth yw:

a) costau rhesymol atal gwaith;

b) costau rhesymol ailddechrau gwaith; ac

c) oediad digonol cyn ailddechrau...

... yw fel mater yn y contract?

Ydw – 38 (81% o'r atebion)

Nac ydw – 9 (19% o'r atebion)

DA – 8

Mynegodd yr ymatebwyr a atebodd "nac ydw" bryderon y gallai rhai cytundebau mewn contractau leihau'r costau a fyddai'n daladwy.

C6.5 Ydych chi'n credu y dylai'r darpariaethau wrth gefn...

a)... nodi uchafswm ar gyfer cost resymol atal gwaith a'i ailddechrau fel 5% o werth y taliad y methwyd â'i dalu?

Ydw – 9 (20% o'r atebion)

Nac ydw – 36 (80% o'r atebion)

DA – 10

b)... nodi'r uchafswm ar gyfer oediad priodol cyn ailddechrau gwaith yn saith diwrnod?

Ydw – 11 (24% o'r atebion)

Nac ydw – 35 (76% o'r atebion)

DA – 9

Yn gyffredinol, fe fynegodd yr ymatebwyr a bleidleisiodd "nac ydw" amheuon ynghylch ymagwedd "un maint i ffitio pawb".

C6(i) Yn achos taliadau y methwyd â'u talu, pa mor aml ydych chi'n credu bod yr hawl i atal perfformiad o dan y contract yn cael ei defnyddio?

C6(ii) O dan y newid arfaethedig yn y gyfraith, pa mor aml ydych chi'n credu y bydd yr hawl i atal perfformiad yn cael ei defnyddio?

Mae'r atebion i'r cwestiynau yma wedi'u darlunio ar y graff isod.



Mae'n bosibl dadansoddi'r ymatebion i'r cwestiwn yma i gyfrif faint o'r ymatebwyr a oedd yn credu y byddai yna gynnydd neu ostyngiad amlwg o ran defnyddio'r hawl i atal perfformiad o dan y Ddeddf Adeiladu. Mae'r ffigurau'n dangos: cynnydd – 18; gostyngiad – 1; dim newid arwyddocaol – 18; dim ateb – 18.

C6(iii) Beth yn eich barn chi yw costau nodweddiadol atal perfformiad? (£)

C6(iv) Beth yn eich barn chi yw costau nodweddiadol ailddechrau gwaith? (£)

Dim ond chwech o'r ymatebwyr a allai amcangyfrif symiau penodol mewn ymateb i'r cwestiynau yma, er bod rhai wedi awgrymu amrediad costau. Credai rhai o'r ymatebwyr y byddai costau atal gwaith yn cynyddu yn ystod cyfnod yr ataliad a chynnig amcangyfrif o £ yr wythnos / mis.

C7.1 Ydych chi'n cytuno y dylai'r defnyddio ar gymalau gwrthgyfrif ar draws contractau gael ei gyfyngu?

Ydw – 32 (67% o'r atebion)

Nac ydw – 16 (33% o'r atebion)

DA – 7

C7.2 Ydych chi'n credu bod diffiniad y gyfraith gyffredin o "wrthgyfrifiad teg" ("mae perthynas agos yn bodoli rhwng y delio a'r trafod a arweiniodd at y priod geisiadau") yn cynnig digon o hyblygrwydd i fodloni gofynion rhesymol y diwydiant adeiladu?

Ydw – 30 (68% o'r atebion)

Nac ydw – 14 (32% o'r atebion)

DA – 11

Roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng yr ymatebion i'r ddau gwestiwn yma. Er bod rhai o'r ymatebwyr am gyfyngu ar allu'r partïon i gytuno ar gymalau gwrthgyfrif ar draws contractau, doedden nhw ddim yn credu bod y diffiniad o wrthgyfrifiad teg yn ddigonol at anghenion y diwydiant adeiladu. Yn y cyfamser, doedd ymatebwyr eraill ddim am gyfyngu ar ddefnyddio'r cymalau yma ond roedden nhw'n bryderus am ei bod yn bosibl y byddai eithriad yn y ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r cymalau gael eu defnyddio o dan amgylchiadau penodol.

C7.3 Ydych chi'n credu y dylai gwrthgyfrifiadau ar draws contractau gael eu caniatáu yn gyffredinol os yw'r gwaith yn rhan o gyfres o brojectau o dan gytundebau fframwaith neu gytundebau tebyg? Os ydych, esboniwch pa gontractau/trefniadau masnachol fyddai'n dod o fewn y categori yma yr ydych yn credu na fydden nhw'n dod o dan yr hawl i gael gwrthgyfrifiad teg.

Ydw – 29 (62% o'r atebion)

Nac ydw – 18 (38% o'r atebion)

DA – 8

Mynegodd rhai o'r ymatebwyr a atebodd "nac ydw" bryderon am gost anghydfodau am a fyddai cytundebau fframwaith penodol yn caniatáu gwrthgyfrifiad teg rhwng y contractau odanynt neu beidio.

C7(ii) Pa mor aml ydych chi'n credu bod contractau'n cynnwys cymalau gwrthgyfrifiad ar draws contractau?

Mae'r ymatebion i'r cwestiynau yma wedi'u darlunio ar y graff isod.



Ar sail 33 o ymatebion

Cymedr – 32%

Canolrif – 15%

Modd – 15%

Mae'n ymddangos ei bod yn rhesymol barnu bod 20% efallai o'r contractau'n cynnwys cymalau gwrthgyfrif ar draws contractau.

C7(iv) Ydych chi'n credu bod troi at gymal gwrthgyfrif ar draws contractau mewn contract yn debyg...

a)... o achosi neu waethygu anghydfod rhwng partïon i gontract? – **21**

b)... o symud anghydfod o'r naill broject i'r llall heb ei ddatrys? – **23**

c)... o helpu i atal neu ddatrys anghydfod rhwng partïon i gontract? – **3**

dim ateb – **24**

Chafodd y cwestiwn yma mo'i eirio'n glir. Er bod rhai o'r ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn drwy ddewis (a) neu (b) neu (c), dewisodd eraill fwy nag un opsiwn. Mae'r ffigurau uchod yn trin pob ymateb fel pe bai'r ymatebwyr wedi cael dewis o blith mwy nag un opsiwn.

C8.1 Ydych chi'n credu ei bod yn fanteisiol i'r diwydiant gadw'r gallu i droi at gymalau "talu pan delir" mewn achosion ansolfedd "i fyny'r afon"?

Ydw – 15 (33% o'r atebion)

Nac ydw – 30 (67% o'r atebion)

DA – 10

C8(iii) Pa mor aml ydych chi'n credu bod cymalau talu pan delir yn cael eu cynnwys mewn contractau

Mae'r atebion i'r cwestiynau yma wedi'u darlunio ar y graff isod.



Ar sail 34 o ymatebion

Rydym wedi dod i'r casgliad ei bod yn rhesymol rhagdybio bod cymalau talu pan delir yn ymddangos mewn rhyw 50% o'r contractau.

C8(iv) Pa mor aml ydych chi'n credu bod ansolfeddau i fyny'r afon yn codi o dan gontractau adeiladu?

Mae'r atebion i'r cwestiynau yma wedi'u darlunio ar y graff isod.



Ar sail 34 o ymatebion

Rydym wedi dod i'r casgliad y byddai'n rhesymol rhagdybio bod ansolfedd i fyny'r afon yn digwydd mewn rhyw 5% o'r contractau.

C8(v) Pa mor aml ydych chi'n credu bod cymalau talu pan delir yn cael eu defnyddio pan fyddan nhw wedi'u cynnwys mewn contractau adeiladu a bod ansolfedd i fyny'r afon yn digwydd?

a) Mwy na hanner yr amser? – **30**

b) Tua hanner yr amser? – **0**

c) Llai na hanner yr amser? – **3**

Dim ateb – **22**

Mae'n ymddangos ei bod yn rhesymol casglu bod cymalau talu pan delir yn cael eu defnyddio yn y rhan fwyaf o'r achosion lle mae'n bosibl gwneud hynny.

C9.1 O ran egwyddor, ydych chi'n cytuno y dylai'r Cynllun wneud darpariaeth ar gyfer talu fesul cam am ddeunyddiau sy'n cael eu cadw oddi ar y safle ac am waith arnyn nhw oddi ar y safle os oes modd?

Ydw – 30 (58% o'r atebion)

Nac ydw – 22 (42% o'r atebion)

DA – 3

C9.2 Os felly, pa amodau a ddylai gael eu defnyddio yn eich barn chi er mwyn i daliadau gael eu mynnu am waith oddi ar y safle o dan y Cynllun?

a) Y cadarnheir bod perchnogaeth y deunyddiau y talwyd amdanyn nhw wedi'i throsglwyddo i'r talai?

b) Y cynigir cyfle i'r talwr fynd at y deunyddiau i'w harchwilio neu i'w casglu, pan fydd yn gofyn am hynny?

c) Y bydd ad-daliad llawn am werth y deunyddiau sy'n perthyn i'r talwr oddi ar y safle ar gael pan gaiff y berchnogaeth ei dychwelyd i'r talai?

d) Y dylai ad-daliad fod ar gael hefyd am unrhyw waith sy'n cael ei wneud ar y deunyddiau a'r cydrannau o dan Baragraff 2(2)(a) o Ran II o'r Cynllun, pan fydd eu perchnogaeth wedi'i throsglwyddo i'r talwr?

e) Y dylai'r ad-daliad yma fod ar gael mewn achosion lle nad oedd y gwaith yn bodloni'r fanyleb wreiddiol?

Mae canran yr ymatebwyr a atebodd Ydw i bob rhan o'r cwestiwn yma wedi'i darlunio isod.



Ar sail 38 o ymatebion

Methodd y cwestiwn yma ag egluro a ddylai'r ymatebwyr ateb ar y sail bod diwygiad yn mynd i gael ei wneud neu beidio. Er hynny, mae'n ymddangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi ei ateb fel hyn, a bod y rhai yn erbyn unrhyw ddiwygiad ar y Cynllun naill ai'n cyflwyno sylwadau am bob nodwedd benodol ar y rheoliad neu'n gwrthod ateb o gwbl.

C9(i) Pa mor aml ar brojectau ydych chi'n credu bod y fframwaith talu yn y Cynllun yn cael ei ddefnyddio (naill ai drwy gytundeb neu fel mecanwaith talu wrth gefn ar gyfer taliadau fesul cam)?

Mae'r atebion i'r cwestiynau yma wedi'u darlunio ar y graff isod.



Ar sail 37 o ymatebion

Mae'n ymddangos bod darpariaethau'r Cynllun ar daliadau yn cael eu defnyddio mewn rhyw ffordd yn aml (mewn tua 25% o'r projectau). Doedd hi ddim yn glir o'r cwestiwn ai dim ond i ddarparu cyfnodau talu mewn contractau yn unig yr oedd hyn yn cael ei wneud ynteu i ddarparu ffordd o werthuso taliadau fesul cam.

C9(ii) Pa mor aml ydych chi'n credu bod projectau'n cynnwys gwaith ar ddeunyddiau sy'n cael eu cadw oddi ar y safle i ddod â nhw i'r safle yn nes ymlaen (ni waeth a oes taliadau fesul cam yn cael eu darparu neu beidio)?

Mae'r atebion i'r cwestiynau yma wedi'u darlunio ar y graff isod.



Ar sail 37 o ymatebion

Cymedr – 49%

Canolrif – 62.5%

Modd – 62.5%

Mae'n ymddangos ei bod yn rhesymol credu bod tua 50% o'r projectau'n cynnwys gwaith ar ddeunyddiau sy'n cael eu cadw oddi ar y safle.

Pennod 3

C10.2 Os ydych yn credu nad yw'r arfer presennol yn briodol, sut rydych chi'n credu y dylai'r ddeddfwriaeth gael ei diwygio er mwyn gwella llif arian ac effeithiolrwydd y broses ddyfarnu? A ddylen ni gynnwys:

a) darpariaeth yn y Ddeddf i wneud darpariaethau contractiol anorfodadwy i'w gwneud yn ofynnol i ddyfarniad gael ei dalu i gyfrif budd-ddeiliad ymddiriedol?

b) pŵer i'r dyfarnwr i wrthod unrhyw ddarpariaeth mewn contract sy'n ei gwneud yn ofynnol i'w ddyfarniad gael ei dalu i gyfrif budd-ddeiliad ymddiriedol?

c) pŵer ehangach i'r dyfarnwr i wrthod unrhyw ofynion mewn contract sy'n gofyn bod unrhyw daliad yn cael ei dalu i gyfrif budd-ddeiliad ymddiriedol (nid dim ond y dyfarniad)?

d) pŵer ehangach i'r dyfarnwr i wrthod unrhyw ofyniad o gwbl mewn contract sy'n arwain at ohirio effaith ei benderfyniad?

e) Rhywbeth arall – rhowch y manylion.

Mae canrannau'r ymatebwyr a atebodd **Dylech** i bob rhan o'r cwestiwn yma wedi'u darlunio isod.



Mae'n eglur mai darpariaeth i beri bod y darpariaethau yma'n amhosibl i'w gorfodi gafodd y gefnogaeth fwyaf. A dweud y gwir, gwnaeth nifer o'r ymatebwyr a gymeradwyodd opsiwn (d) (yr ail fwyaf poblogaidd) hynny yn ychwanegol at opsiwn (a).

C10.3 Ydych chi'n credu y dylid caniatáu i'r dyfarnwr wneud ei ddyfarniad i gyfrif budd-ddeiliad ymddiriedol mewn achosion lle mae'r parti sy'n derbyn y dyfarniad yn destun achos ansolfedd.

Ydw – 14 (30% o'r atebion)

Nac ydw – 33 (70% o'r atebion)

DA – 8

Os felly, a ddylai hyn fod yn bosibl:

a) o dan bob dyfarniad drwy gynnwys gofyniad yn y Ddeddf Adeiladu?

Dylai – 6 (13% o'r atebion)

Na ddylai – 39 (87% o'r atebion)

DA – 10

b) o dan bob dyfarniad o dan y Ddeddf Adeiladu fel yr unig ffordd i sicrhau bod penderfyniad y dyfarnwr yn cael ei ohirio?

Dylai – 1 (2% o'r atebion)

Na ddylai – 44 (98% o'r atebion)

DA – 10

c) dim ond mewn dyfarniadau o dan y Cynllun ac mewn achosion lle mae'r partïon wedi cytuno i ddefnyddio cyfrif budd-ddeiliad ymddiriedol ar gyfer dyfarniad y dyfarnwyr (fel yr ydym wedi'i gynnig)?

Dylai – 5 (11% o'r atebion)

Na ddylai – 40 (89% o'r atebion)

DA – 10

d) Rhywbeth arall (esboniwch)?

Dylai – 3 (7% o'r atebion)

Na ddylai – 42 (93% o'r atebion)

DA – 10

Awgrymodd yr ymatebwyr y gallai'r dyfarnwr gael pŵer i gytuno ar yr ymagwedd yma gyda'r partïon ar ôl i'r anghydfod gael ei gyfeirio ato neu y dylai'r partïon gael pŵer i gytuno ar yr ymagwedd yma ar gyfer ansolfedd yn y contract.

Fel arall, ydych chi'n credu:

e) mai dim ond drwy'r llysoedd y dylai gohiriad ar benderfyniad y dyfarnwr fod yn bosibl?

Ydw – 23 (51% o'r atebion)

Nac ydw – 22 (49% o'r atebion)

DA – 10

f) na ddylai gohiriad ar benderfyniad y dyfarnwr fod ar gael o gwbl?

Ydw – 9 (20% o'r atebion)

Nac ydw – 36 (80% o'r atebion)

DA – 10

C10(ii) Pa mor aml ydych chi'n credu bod contractau adeiladu'n cynnwys cymalau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddyfarniadau dyfarnwr gael eu talu i gyfrifon budd-ddeiliad ymddiriedol?

a) Mwy nag un contract ym mhob 10? – **3**

b) Rhwng un contract ym mhob 10 ac un ym mhob 100? – **12**

c) Llai nag un contract ym mhob 100? – **18**

Dim ateb – **22**

Ar sail yr adborth yma, mae'n ymddangos mai yn gymharol brin y mae'r cymalau yma'n cael eu defnyddio, sef mewn un contract ym mhob 100 o bosibl.

C10(iii) Pa mor aml ydych chi'n credu bod y cymalau hyn yn arwain parti i benderfynu yn erbyn cyfeirio anghydfod at ddyfarnwr lle byddai wedi'i gyfeirio fel arall?

a) Mwy na hanner yr anghydfodau? – **11**

b) Tua hanner yr anghydfodau? – **4**

c) Llai na hanner yr anghydfodau? – **15**

Dim ateb – **25**

Mae'n eglur bod y safbwyntiau ar y cwestiwn yma wedi'u pegynnu rywfaint.

C10(iv) Pa mor aml ydych chi'n credu bod dyfarniad yn cael ei wneud gan ddyfarnwr os yw'r parti sy'n ei dderbyn yn destun achos ansolfedd?

a) Mwy nag un dyfarniad ym mhob 10? – **0**

b) Rhwng un dyfarniad ym mhob 10 ac un ym mhob 100? – **13**

c) Llai nag un dyfarniad ym mhob 100? – **24**

Dim ateb – **18**

Mae'n ymddangos mai dim ond un dyfarniad mewn 100 efallai sy'n cael ei effeithio fel hyn.

C11.1 Ydych chi'n credu y dylai fod gan ddyfarnwr...

a) dim pŵer i wneud penderfyniad terfynol a chyfrwymol ar ei awdurdodaeth? – **20**

b) pŵer i wneud penderfyniad terfynol a chyfrwymol ar ei awdurdodaeth mewn meysydd penodol yn unig? – **14**

c) pŵer i wneud penderfyniad terfynol a chyfrwymol ar ei awdurdodaeth mewn unrhyw faes? – **14**

dim ateb – **7**

Mae'n amlwg bod gwahaniaeth barn ar y cwestiwn yma er ei bod yn ymddangos bod gan fwyafrif bach o'r ymatebwyr rywfaint o ddisgresiwn dros eu hawdurdodaeth.

C11.2 Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylai dyfarnwr gael y cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau cyfrwymol dim ond mewn ymateb i heriau i'w awdurdodaeth mewn meysydd lle gellir hyderu yn ei allu i wneud penderfyniad cywir a dibynadwy?

Ydw – 31 (72% o'r atebion)

Nac ydw – 12 (28% o'r atebion)

DA – 12

Roedd yn ymddangos bod rhai o'r ymatebwyr yn pryderu ein bod yn cynnig prawf statudol i ddod o hyd i'r meysydd hynny lle gellid hyderu yng ngallu'r dyfarnwr i benderfynu ar ei awdurdodaeth. Mewn gwirionedd, roedden ni'n ceisio dod o hyd i brawf a fyddai, o safbwynt polisi, yn awgrymu meysydd lle gallai'r dyfarnwyr gael disgresiwn o dan y ddeddfwriaeth.

C11.3 Os ydych yn cytuno â'r egwyddor yn C11.2, ydych chi'n cytuno y gellid disgwyl i ddyfarnwyr wneud penderfyniadau cywir a dibynadwy ar y seiliau canlynol:

a) a oes yna gontract adeiladu at ddibenion Adrannau 104 a 105 o'r Ddeddf neu beidio?

Ydw – 35 (83% o'r atebion)

Nac ydw – 7 (17% o'r atebion)

DA – 13

b) a oes yna anghydfod?

Ydw – 34 (81% o'r atebion)

Nac ydw – 8 (19% o'r atebion)

DA – 13

c) a gafodd y dyfarnwr ei benodi'n briodol?

Ydw – 35 (83% o'r atebion)

Nac ydw – 7 (17% o'r atebion)

DA – 13

C11.6 Ydych chi'n credu y dylai'r ddeddfwriaeth roi hawl statudol i'r dyfarnwr i gael taliad o dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

a) wrth ymneilltuo ar ôl penderfynu nad oes ganddo awdurdodaeth?

Ydw – 39 (91% o'r atebion)

Nac ydw – 4 (9% o'r atebion)

DA – 12

b) wrth ymneilltuo ar ôl gwneud penderfyniad cyfrwymol nad oes ganddo awdurdodaeth o dan y cynnig?

Ydw – 32 (70% o'r atebion)

Nac ydw – 8 (30% o'r atebion)

DA – 15

c) wrth ymneilltuo gyda chytundeb y ddau barti i'r contract (fel ar hyn o bryd)?

Ydw – 38 (88% o'r atebion)

Nac ydw – 5 (12% o'r atebion)

DA – 12

Dyma gwestiwn arall lle roedd yr ymatebwyr yn aml yn cymeradwyo mwy nag un o'r opsiynau a oedd ar gael. Oherwydd hynny, rydyn ni wedi cyfrif yr ymatebion sy'n cymeradwyo pob opsiwn ar wahân.

C11(i) Pa mor aml ydych chi'n credu bod dyfarnwyr yn gwneud penderfyniadau nad ydyn nhw'n gyfrwymol am eu hawdurdodaeth?

Mae'r atebion wedi'u darlunio yn y graff isod.



Ar sail 35 o ymatebion

Cymedr – 54%

Canolrif – 62.5%

Modd – 62.5%

Ar sail yr ymateb yma, mae'n ymddangos ei bod yn rhesymol casglu bod dyfarnwyr yn gwneud penderfyniad nad yw'n gyfrwymol ar eu hawdurdodaeth mewn o bosibl 60% o'r dyfarniadau.

C11(ii) Pa mor aml ydych chi'n credu bod her i awdurdodaeth yn ymwneud i raddau helaeth â'r canlynol:

- a oes yna gontract adeiladu at ddibenion Adrannau 104 a 105 o'r Ddeddf neu beidio;
- a oes yna anghydfod; ac
- a gafodd y dyfarnwr ei benodi'n briodol;

a) Mwy na hanner yr heriau i awdurdodaeth – **12**

b) Tua hanner yr heriau i awdurdodaeth – **10**

c) Llai na hanner yr heriau i awdurdodaeth – **6**

Dim ateb – **27**

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr ei bod yn gyffredin iawn erbyn hyn i herio'r awdurdodaeth ar sail y ddadl na chafodd y contract ei gofnodi'n briodol mewn ysgrifen.

C11(vi) Beth ydych chi'n credu yw cyfanswm cost achosion gorfodi i'r partïon, ar gyfartaledd? **(£)**

Cymedr – £13,000

Canolrif – £6,000

Mae'r atebion hyn yn defnyddio'r un fethodoleg ag ar gyfer C2(i) drwy ystyried atebion y 7 ymatebydd a gyflwynodd ffigurau penodol yn unig. Er hynny, awgrymodd 20 ymatebwr arall amrediadau costau. Mae cymryd pwynt canol pob amrediad yn ychwanegol at y 7 ateb a ddadansoddwyd uchod yn rhoi:

Cymedr – £13,000

Canolrif – £12,500

Mae'r ddwy fethodoleg yn rhoi'r un modd hefyd:

Modd – £5,000.

Er bod y rhan fwyaf o'r achosion o orfodi yn costio llai na £12,500, mae hyn yn awgrymu bod rhai yn gallu costio cryn dipyn yn fwy a gwthio'r pris cyfartalog i fyny.

C12.2 Oni bai bod y penderfyniad o bwys ar gyfer taliad heblaw taliad interim, ydych chi'n cytuno y gallai'r taliad interim sy'n deillio o benderfyniad dyfarnwr gael ei ddiwygio mewn taliad dilynol neu yn y cyfrif terfynol?

Ydw – 28 (85% o'r atebion)

Nac ydw – 5 (15% o'r atebion)

DA – 22

Oes unrhyw amgylchiadau lle na fyddai hynny'n wir?

Oes – 7 (58% o'r atebion)

Nac oes – 5 (42% o'r atebion)

DA – 43

Ysgogodd y cwestiwn yma amrywiaeth o ymatebion. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn aneglur beth oedd ystyr bod y penderfyniad o bwys ar gyfer y cyfrif terfynol a bod un arall heb fod o bwys felly.

C12.3 Ydych chi'n cytuno y dylai'r ddeddfwriaeth...

a) caniatáu i ddyfarnwyr ym mhob dyfarniad agor penderfyniadau neu dystysgrifau sydd o bwys ar gyfer taliadau interim? – **28**

b) gadael y mater i'r contract rhwng y partïon fel ar hyn o bryd gyda'r ddarpariaeth bresennol yn y Cynllun sy'n caniatáu i'r dyfarnwr agor dim ond penderfyniadau a thystysgrifau nad ydyn nhw'n derfynol? – **10**

dim ateb – **17**

C12(i) Pa mor aml ydych chi'n credu bod contractau'n cynnwys cymalau sy'n golygu bod penderfyniadau neu dystysgrifau yn "derfynol a phendant" ar faterion sydd o bwys ar gyfer taliadau interim yn unig?

Mae'r atebion wedi'u darlunio yn y graff isod.



Ar sail 34 o ymatebion

Cymedr – 19%

Canolrif – 15%

Modd – 15%

Mae'n ymddangos ei bod yn bosibl bod 15% o'r contractau'n cynnwys cymalau o'r math yma.

C13.1 Ydych chi'n cytuno y dylid rhoi imiwnedd statudol i'r dyfarnwr, fel y'i rhoddir i gymrodeddwyr gan Adran 29 o Ddeddf Cymrodeddu 1996 yn lle'r gofyniad cyfredol ynglŷn ag imiwnedd contractiol yn Adran 108(4) o'r Ddeddf Adeiladu?

Ydw – 40 (93% o'r atebion)

Nac ydw – 3 (7% o'r atebion)

DA – 12

C13.2 Ydych chi'n ymwybodol o amgylchiadau lle mae'r posibilrwydd o hawliad gan drydydd parti yn erbyn dyfarnwr wedi cael effaith andwyol ar y dyfarniad?

Ydw – 3 (9% o'r atebion)

Nac ydw – 32 (91% o'r atebion)

DA – 20

C13(i) Pa mor aml ydych chi'n credu bod dyfarniad yn arwain at wir bosibilrwydd y gallai trydydd parti ddwyn achos (ni waeth a fydd achos felly'n cael ei ddwyn neu beidio)?

Mae'r atebion wedi'u darlunio yn y graff isod.



Ar sail 33 o ymatebion

Cymedr – 8.5%

Canolrif – 2.5%

Modd – 2.5%

Mae'n ymddangos y gall fod posibilrwydd o'r fath tua 5% o'r amser.

C14.1 Ydych chi'n cytuno â'r diwygiad arfaethedig i ddyblygu prawf annibyniaeth y Cynllun yn y Ddeddf Adeiladu?

Ydw – 40 (93% o'r atebion)

Nac ydw – 3 (7% o'r atebion)

DA – 12

C14(i) Pa mor aml ydych chi'n credu bod dyfarniadau'n cael eu cynnal lle byddai'r dyfarnwr yn methu bodloni'r gofyniad ynglŷn ag annibyniaeth yn y Cynllun Contractau Adeiladu?

Mae'r atebion wedi'u darlunio yn y graff isod.



Ar sail 29 o ymatebion

Cymedr – 10%

Canolrif – 2.5%

Modd – 2.5%

Mae'n ymddangos y gallai hyn ddigwydd tua 5% o'r amser.

Argraffwyd yn y DU ar bapur wedi'i ailgylchu gydag o leiaf 75% o wastraff defnyddwyr.
Cyhoeddwyd gyntaf Ionawr 2006. Yr Adran Masnach a Diwydiant. www.dti.gov.uk
(c) Hawlfraint y Goron. DTI 02/06/NP. URN 06/633W